

# CABINET

## CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 29ain Ionawr, 2019
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

### AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Peredur Jenkins	Aelod Cabinet Cyllid
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
W. Gareth Roberts	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Addysg
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

## RHAGLEN

	<b>Eitem</b>	<b>Cyflwynir gan</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Tud.</b>
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	ADRODDIAD YMATEB CYNGOR GWYNEDD I'R PAPUR GWYN: YMGYNGHORIAD AR DDIWYGIAD TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLIDO AWDURDODAU TAN AC ACHUB CYMRU	Cyng. Dyfrig Siencyn	Vera Jones	4 - 13
6	ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	Cyng. W Gareth Roberts	Morwena Edwards	14 - 23
7	ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD	Cyng. Dilwyn Morgan	Morwena Edwards	24 - 35
8	ADRODDIAD AELOD CABINET DROS ADDYSG	Cyng. Gareth Thomas	Iwan Trefor Jones	36 - 41
9	ADRODDIAD AELOD CABINET DROS DAI, DIWYLLIANT A HAMDDEN	Cyng. Craig ab Iago	Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones	42 - 53

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

**Dyddiad y cyfarfod:** 29ain Ionawr, 2019  
**Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn  
**Swyddog Cyswllt:** Vera Jones  
**Rhif Ffôn Cyswllt:** 01286 679267  
**Teitl yr Eitem:** Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Papur Gwyn:  
Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i ffurfio ymateb terfynol i'r ymgynghoriad uchod yn seiliedig ar yr ymateb drafft sydd wedi ei baratoi ar ran y Cyngor i'r Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru (Atodiad A), gan ymgorffori ac addasu yn unol ag unrhyw sylwadau gan aelodau'r Cabinet yn ystod y cyfarfod.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys ymateb y Cyngor i'r ddogfen ymgynghorol a bod y Cabinet wedi cael cyfle i roi mewnbwn i'r ddogfen.

#### 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Cyhoeddwyd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru – ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, ar 13ed Tachwedd 2018. Mae'r ymgynghoriad yn gorffen ar 5 Chwefror 2019 ac felly angen ymateb erbyn hynny.

3.2 Mae'r papur yn ymgynghori ar bum prif elfen fel a ganlyn

- Y ddadl dros newid (ym Mhennod 1)
- Dylunio System Newydd (ym Mhennod 2)
- Llywodraethu ac Aelodaeth (ym Mhennod 3)
- Cyllido'r Awdurdod (ym Mhennod 4)
- Rheoli Perfformiad (ym Mhennod 5)

Gyda chwestiynau penodol wedi eu cynnwys fesul pennod.

Mae'r adroddiad yn Atodiad A yn amlinellu'r prif bwytau fesul pennod, y cwestiynnau y deisyfir atebion iddynt, ynghyd ag ymateb drafft Cyngor Gwynedd.

#### 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Ymateb yn ffurfiol ar ran y Cyngor cyn y dyddiad cau ar 5ed o Chwefror 2019.

## **5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **5.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

#### **i. Y Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cyd-weithio gyda'r awdur ar yr ymateb yma. O safbwynt y trefniadau democratiadd arfaethiedig mae union natur yr achos am newid, cyswllt rhwng yr achos hwnnw a'r newidiadau a gynnigir a gwireddu amcanion yn annodd i'w dilyn ar adegau. Mae hyn yn cael ei adleywrhcu yn yr atebion drafft.

#### **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac yn cefnogi'r cynnwys.

Yn yr ymateb i Bennod 4, cytunaf dylid adolygu trefniadau ariannu'r Gwasanaeth Tân, a byddai trefn praesept yn fwy tryloyw na'r ardoll gyfredol ar awdurdodau lleol y rhanbarth. Byddwn yn hapus i barhau i gasglu'r arian ar ran y Gwasanaeth Tân, wrth gwrs, ond dylai'r swm a'r cynnydd ymddangos ar wahân ar y bil treth cyngor, fel praeseptau'r heddlu a chynghorau cymuned. Trwy hynny, byddai'r Awdurdod Tân yn fwy atebol am ei wariant.

Yn adlewyrchu'r atebolrwydd hynny, rwyf hefyd yn cytuno gyda'r ymateb i Bennod 3, lle dywedir dylai penderfyniadau strategol a chyllidol fod yn nwylo aelodau etholedig ar yr Awdurdod Tân, yn hytrach nac yn nwylo'r prif swyddog tân.

## **Atodiadau**

## **Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru - ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru.**

Cyhoeddwyd ar 13eg Tachwedd 2018. Mae'r ymgynghoriad yn gorffen ar 5 Chwefror 2019.

Argymhellir, er mwyn cael darlun mwy llawn o'r amcanion, eich bod yn cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ar y linc isod:

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-11/181112-diwygio-awdurdodau-tan-ac-achub-cymru.pdf>

### **Pennod 1 Y Ddadl Dros Newid**

#### **Materion allweddol a nodwyd**

'Drwy ddiwygio trefniadau presennol llywodraethu, cyllido a rheoli perfformiad yr Awdurdodau Tân ac Achub, dylid cyflawni'r canlynol:

- Gwarchod y safonau gwasanaeth uchel presennol a chaniatáu i'r Gwasanaeth Tân gynnal a gwella hynny gymaint â phosibl.
- Creu arweinyddiaeth glir ac effeithiol o ran datblygu a darparu gwasanaethau tân ac achub, ac atebolrwydd ar gyfer hyn.
- Creu atebolrwydd allanol gwirioneddol ar gyfer penderfyniadau gwario a chyllidebu'r Gwasanaethau Tân ac Achub, gan gydnabod yr agweddau penodol o ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau brys.
- Ymgorffori swyddogaeth newidiol y gwasanaeth a darparu dulliau cyllido clir, teg a chynaliadwy.
- Gwella arbenigedd a gallu'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu arweinyddiaeth strategol, parhau i gydweithio'n strategol a dwyn uwch-swyddogion i gyfrif.
- Aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub i fod yn llai niferus, ond bod ganddynt gyloch gwaith cliriach a'r gallu i'w gyflawni.
- Cynnwys system rheoli perfformiad newydd a ddylai adlewyrchu'n well y sefyllfaoedd a'r heriau y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn eu hwynebu.
- Bod â chwmpas mor gyfyngedig â phosibl, ac osgoi unrhyw newidiadau i wasanaethau neu adnoddau rheng flaen.'

Pennod 1 - Cwestiynau Ymgynghori:

1. A ydych chi'n cytuno bod yr amcanion ar gyfer diwygio yn briodol ac yn bwysig?
2. A oes amcanion eraill y dylai'r cynllun diwygio roi sylw iddynt?

Pennod 1 - Ymateb drafft Cyngor Gwynedd:

**Noder fod y trefniadau llywodraethu a sicrhau atebolrwydd Democratiaeth yn y papur gwyn ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yn unig. Mae nifer o gyrrff eraill sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd (megis Gwasanaeth Ambiwylans, Awdurdod Iechyd) lle nad oes trefniadau atebolrwydd democrataidd ar eu cyfer. Pam fod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar yr Awdurdod Tân ac Achub yn unig?**

**Fodd bynnag, o ystyried sefyllfa gyfredol y corff cyhoeddus hwn a'r ymgynghoriad penodol ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, ystyriwyd y cyfeiriad sy'n cael ei gynnig.**

**Mae'n anodd iawn dadlau yn erbyn yr egwyddor o selio unrhyw newid ar yr angen i wella gallu'r gwasanaeth i gynnal llwyddiant presennol ac adeiladu arno gan ddeall ac ymateb i heriau hirdymor. Yn ogystal, mae'n anodd anghydweld a'r angen i gyrff cyhoeddus fod yn atebol mewn modd eglur i'r rheini a wasanaethir ganddynt gan sicrhau trefniadau democratiaeth glir.**

**Fodd bynnag nid yw'r cyswllt rhwng y ddadl am newid a'r hyn a gynigir o safbwynt y strwythurau democrataidd yn cael ei ynganu yn hollol eglur. Efallai fod lle i addasu'r trefniadau cyfredol o ran atebolrwydd democrataidd, yn arbennig rôl aelodau etholedig ynghyd â threfniadau cyllido'r gwasanaeth. Ond ogystal, byddai'n rhaid sicrhau eglurder ar sut mae trefniadau ymarferol am sicrhau cyflawni'r egwyddorion.**

**Rydym o'r farn mai'r newid pennaf yw'r newid i drefniadau cyllidebu'r Awdurdod Tân ac Achub. Yn gyfredol mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn codi ardoll ar yr awdurdodau perthnasol, ac er bod ymgynghori ar y cynnydd, y gwasanaeth ei hun sy'n penderfynu ar faint y gyllideb.**

## **Pennod 2 Dylunio System Newydd**

### **Materion allweddol a nodwyd**

- ei bod yn bwysig cynnal 'brand' y Gwasanaeth Tân ac Achub a sgiliau a gwerthoedd craidd diffoddwyr tân. Mae hynny'n golygu y dylai Awdurdodau Tân ac Achub barhau i fod yn endidau penodol ac ar wahân. Dylai fod ganddynt eu trefniadau llywodraethu a chyllido eu hunain, er y bydd angen diwygio'r rhain fel y gallant gydweithio â sefydliadau eraill.'
- na ddylid trosglwyddo'r gwasanaethau tân ac achub i fod dan reolaeth y Comisiynwyr Heddlu a Throseddwyr, fel sy'n digwydd mewn rhannau o Loegr.'
- na ddylid trosglwyddo rheolaeth o'r Gwasanaeth yn ôl i'r awdurdodau lleol
- y dylid parhau â'r patrwm presennol o gael tri Awdurdod Tân ac Achub.
- na ddylid newid ffiniau presennol yr Awdurdodau Tân ac Achub.'
- Nodir fod y berthynas bresennol rhwng Awdurdodau Tân ac Achub a Llywodraeth Cymru yn gymhleth. Mae Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys amcanion a blaenoriaeth ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, ac mae modd i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Awdurdodau hynny nad ydyn nhw'n gweithredu yn unol â hynny. Ond dim ond canllawiau yw'r rhain y dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub 'eu hystyried.' Nid

oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth o gwbl dros gynlluniau, perfformiad a chyllidebau'r Awdurdodau Tân ac Achub.'

- Nodir y farn y dylai rheolaeth barhau i raddau helaeth ar y lefel bresennol, gyda'r trefniadau newydd hefyd yn adlewyrchu'r buddiannau cenedlaethol cyfyngedig ond dilys yn natblygiad a darpariaeth y Gwasanaeth. Efallai y dylai hynny gynnwys egluro a thynhau statws presennol y Fframwaith Cenedlaethol a'r trefniadau rheoli perfformiad perthnasol. Nodir y farn na ddylai'r llywodraeth ymwneud yn helaeth ac yn uniongyrchol â llywodraethu beunyddiol y Gwasanaeth.'

#### Pennod 2 - Cwestiynau Ymgynghori:

3. A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub barhau i fod yn endidau ar wahân a phenodol, gyda'r un ffiniau ag sydd ganddynt ar hyn o bryd?
4. A ydych chi'n cytuno na fyddai'n briodol trosglwyddo rheolaeth dros y gwasanaethau tân ac achub i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau neu awdurdodau lleol?
5. A ydych chi'n cytuno bod buddiannau cenedlaethol dilys ond cyfyngedig yn y Gwasanaeth y mae angen eu hadlewyrchu yn ei drefniadau llywodraethu?

#### Pennod 2 – Ymateb drafft Cyngor Gwynedd:

**Mae'r ymgynghoriad yn yr ail bennod, i bob pwrpas, yn nodi pam na ddylid newid y trefniadau cyfredol, fodd bynnag, mae rhywfaint o negeseuon cymysg wrth bwysu am gadw'r awdurdodau ar wahân (cwestiwn 3), ond pwyslais hefyd ar y buddion cenedlaethol (cwestiwn 5).**

Rydym yn cydweld nad oes budd amlwg yn deillio o gael un Awdurdod Tân ac Achub i Gymru ac y dylid parhau gyda'r trefniadau cyfredol o dri Awdurdod heb newid i'r ffiniau presennol. Mae ffiniau cyfredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyd-fynd â ffiniau'r chwe awdurdod lleol, Bwrdd Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr ac mae llawer o waith rhanbarthol yn digwydd ac yn datblygu ar y sail ranbarthol hon. Rhaid sicrhau llais cryf i Ogledd Cymru, gyda gwasanaeth sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth gref o'r ardal ac anghenion yr ardal sy'n cael ei wasanaethu.

Rydym hefyd yn cydweld na ddylid trosglwyddo'r Gwasanaethau Tân ac Achub dan reolaeth y Comisiynwyr Heddlu a Throseddwyr. Petai symud tuag at y model hwnnw, mae'n angenrheidiol nodi y byddai goblygiadau pellach gan fod y Comisiynwyr Heddlu a Throseddwyr dan gyfrifoldeb y Swyddfa Gartref, sydd heb ei ddatganoli, er bod y gwasanaeth ei hun wedi ei ddatganoli. Ni fyddai sefyllfa o'r fath yn ddelfrydol a gall cyfuno'r cyfrifoldebau am y gwasanaethau yma arwain at ddryswch ynglŷn â rolau, pwerau a chyfrifoldebau. .

Rydym hefyd yn cydweld na ddylid trosglwyddo'r Gwasanaethau Tân ac Achub dan gyfrifoldeb awdurdodau lleol yn uniongyrchol. Nid yw'n gam rhesymol datgymalu gwasanaeth sy'n gweithio'n rhanbarthol ar draws chwe awdurdod yn y gogledd. Byddai'n arwain at gollu'r elfen cyd-weithio ranbarthol a'r budd a ddaw yn sgil hynny ac yn llawer iawn llai effeithiol ac effeithlon. Rhagwelir y byddai angen sefydlu

cydbwyllgor i reoli'r gwasanaeth, heb fudd amlwg yn dod o drefniadau o'r fath o'r ad-drefnu.

Rydym eisoes wedi datgan ein barn y dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub barhau i fod yn endidau ar wahân er mwyn sicrhau ateb gofynion lleol (sy'n bur wahanol yn y gogledd i'r hyn a wynebir gan y ddwy ardal arall) a chadw arbenigedd lleol. Yn ein barn ni, mae'r buddion cenedlaethol yn eilradd i'r buddion lleol. Rydym yn rhoi pwyslais ar wasanaethu yn lleol, gan dderbyn unrhyw fuddion cenedlaethol a ddaw yn sgil polisïau cenedlaethol yn y maes.

### **Pennod 3 Llywodraethu ac Aelodaeth**

#### **Materion allweddol a nodwyd**

- y dylai awdurdodau lleol barhau i enwebu aelodau, ond gyda rhai newidiadau pwysig.
- y dylai pob awdurdod lleol enwebu un aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub, (byddai hynny'n golygu 6 yr y Gogledd)
- Na ddylai'r aelod hwnnw/ honno fod yn gynghorydd meinciau cefn
- Aelod Cabinet fyddai'r Aelod. I wneud hyn byddai'n rhaid diwygio rheolau cyflog ychwanegol i aelodau Cabinet.
- y dylid cael aelodau anweithredol hefyd i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau, ni ddylai fod gormod ohonynt - 2 yng Ngogledd Cymru. Y ffordd symlaf o fynd ati fyddai i Weinidogion Cymru benodi aelodau anweithredol ar sail cystadleuaeth agored a theg. Byddent hefyd yn fodlon gyda'r opsiwn i'r Awdurdodau Tân ac Achub benodi eu haelodau anweithredol eu hunain, ar yr amod bod proses a meini prawf wedi'u cytuno ar gyfer hyn.'
- 'pe byddai newid deddfwriaethol yn bosibl, a phan fyddai hynny'n digwydd, credwn mai'r ffordd orau o greu atebolrwydd fyddai gwahanu swyddogaeth yr Awdurdod Tân ac Achub a swyddogaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub ei hun. Byddai'r Gwasanaeth yn gyfrifol yn ffurfiol am bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Yn ben arno byddai Prif Swyddog Tân Statudol a fyddai'n meddu ar yr holl swyddogaethau o ddarparu gwasanaethau sydd gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar hyn o bryd, ynghyd â'r grym i gyflogi staff a bod yn berchen ar asedau. Byddai'r Awdurdod Tân ac Achub, mewn cymhariaeth, yn dal y Prif Swyddog Tân a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gyfrif. Ni fyddai'n gwneud penderfyniadau ar ei ben ei hun, ond byddai'n cadarnhau'r penderfyniadau pwysicaf megis pennu cyllideb, cyhoeddi cynllun strategol neu wneud newidiadau sylweddol i allu rheng flaen.'



Pennod 3 - Cwestiynau Ymgynghori:

6. A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol barhau i enwebu aelodau Awdurdodau Tân ac Achub?
7. A ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol enwebu un aelod Awdurdod Tân ac Achub yr un, wedi eu dewis o blith eu haelodau cabinet?
8. A ydych chi'n credu bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith ynglŷn â maint cabinet cyngor, a faint o dâl a roddir, fel y gall yr aelodau hefyd wasanaethu ar Awdurdodau Tân ac Achub?
9. A ydych chi'n credu y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod ag aelodau anweithredol hefyd?
10. Pwy ddylai benodi aelodau anweithredol Awdurdodau Tân ac Achub?
11. A ydych chi'n cytuno, yn y tymor hwy, y dylai cyfrifoldeb am y gwasanaeth fod yn nwylo Prif Swyddog Tân statudol, gydag Awdurdodau Tân ac Achub yn craffu a goruchwyllo? Os felly, a fyddai hynny'n golygu bod angen gwneud unrhyw newid i drefniadau aelodaeth?
12. A oes gennych chi unrhyw gynigion eraill ynglŷn â sut i ddiwygio'r modd o lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym Mhenodau 1 a 2?

Pennod 3 – Ymateb drafft Cyngor Gwynedd:

**Mae trefniadau llywodraethu cyfredol ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub angen eu hadolygu. Gofynnir am gynrychiolaeth ddemocrataidd (5 o aelodau etholedig o Wynedd ar hyn o bryd) i wasanaethu ar Fwrdd yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r gynrychiolaeth ddemocrataidd yn seiliedig ar boblogaeth pob awdurdod ac wedi ei selio ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Mae'r aelodau etholedig o'r gwahanol awdurdodau sy'n eistedd ar yr Awdurdod Tân ac Achub yn atebol ac yn gwasanaethu'r Awdurdod Tân ac Achub ei hun. Nid yw'n rôl sy'n cynrychioli'r awdurdod lleol nac yn cynrychioli poblogaeth yr ardaloedd.**

**Rydym yn cytuno fod lle i addasu rhywfaint ar niferoedd yr aelodau etholedig sy'n gwasanaethu ar yr Awdurdod Tân ac Achub, fodd bynnag, rydym o'r farn mai'r Cynghorau unigol ddylai eu penodi. Pe na fyddai Awdurdodau Lleol yn enwebu aelod neu aelodau i fod ar yr Awdurdod Tân ac Achub, mae'n anodd iawn meddwl am ddull arall o adnabod aelodau i wasanaethu. Rhaid cofio fod Aelodau etholedig o bob awdurdod yn dod ag arbenigedd lleol a llais lleol i Awdurdod Tân ac Achub er mwyn gwarchod buddion eu trigolion lleol. Yn ogystal, maent wedi eu hethol yn ddemocrataidd i gynrychioli eu hetholwyr.**

**Fodd bynnag, nid ydym yn cydweld gyda'r awgrym i Awdurdodau unigol fod yn enwebu un aelod i wasanaethu ar yr Awdurdod Tân ac Achub, a hynny o blith Aelodau Cabinet.**

**Nid ydym yn glir o'r rheswm sydd wedi ei nodi tu cefn i'r awgrym o geisio rôl benodol i'r Aelod Cabinet ar yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae llwythi gwaith aelodau Cabinet yn drwm eisoes, a blaenoriaeth aelod cabinet ar wasanaethu'r bobl yn ei awdurdod ef/ hi a sicrhau'r gwasanaeth gorau iddynt. Rhaid cofio fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn nodi fod cyflogau Aelodau Cabinet yn seiliedig ar weithio oddeutu 40 awr yr wythnos (ond nid 9 - 5). Mae'r lefel ymroddiad disgwylidig gan y**

Panel felly yn awgrymu na ellid ymdopi â disgwyliadau uwch. Yn ogystal, mae'r Panel hefyd wedi nodi na ddylid caniatáu mwy nag un uwch gyflog i unrhyw aelod, eto ar sail disgwyliadau a'r lefel ymroddiad i ddeiliaid uwch gyflogau.

Nid ydym yn credu mai un aelod, a hwnnw/honno yn Aelod Cabinet yw'r ateb cywir. Gall unrhyw aelod ymroddedig fagu arbenigedd i'r maes, ac ystyrir fod rhywfaint mwy o amser gan aelodau mainc gefn i ymroi i'r gwaith. Hefyd, rydym o'r farn fod angen mwy nag un aelod o'r awdurdod o gofio fod yr aelodau yn cynrychioli ardal ddaearyddol fawr a nifer uchel o'r boblogaeth. Byddai penodi mwy nag un aelod hefyd yn sicrhau presenoldeb i gynrychioli'r etholwyr yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

Fodd bynnag, petai symud ymlaen gyda'r syniad fod Aelod Cabinet yn aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub, byddai'n angenrheidiol edrych ar wneud newidiadau cyfreithiol ar faint cabinet er mwyn gallu dygymod â'r gofynion ychwanegol. Yn ychwanegol, byddai'n angenrheidiol edrych ar effaith taliadau uwch-gyflogau ar gyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub, gan sicrhau fod unrhyw newidiadau i'r trefniadau ddim am olygu costau ychwanegol, yn arbennig yn sgil yr hinsawdd ariannol gyfredol gydag arbedion parhaus. Yn ogystal, byddai'n rhaid derbyn na fyddai'r aelodaeth ar yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei selio ar gydbwysedd gwleidyddol y rhanbarth.

O ran aelodau anweithredol, mae'n rhaid cwestiynu sut fyddai'r rôl yn ychwanegu gwerth a sicrhau eglurder o'r gofynion a'r rôl cyn symud ymlaen gyda hynny. Fodd bynnag, petai ystyriaeth i symud ymlaen ar y trywydd yma, byddai'n rhaid sicrhau trefn penodi dryloyw, sy'n glir i'r cyhoedd ac i gael ei arwain gan y corff sy'n gyfrifol am eu penodi .

Nodir "y dylai cyfrifoldeb am y gwasanaeth fod yn nwylo Prif Swyddog Tân statudol". Cyfrifoldeb am ochor weithredol y gwasanaeth ydi hyn? Yr Awdurdod Tân sydd fel arfer yn gosod cyfeiriad strategol a chyllideb y Gwasanaeth ayyb. Rhaid bod yn glir mai sefydlu trefniadau craffu a throsolwg yn unig sydd yn cael ei awgrymu wrth roi cyfrifoldeb am y gwasanaeth yn nwylo Prif Swyddog Tân statudol, gyda'r Awdurdod Tân ac Achub, sydd yn gam yn ôl o osod penderfyniadau strategol a chyllidol, yn nwylo aelodau etholedig.

## **Pennod 4 Cyllid**

### **Materion Allweddol a nodwyd**

- Nodir rhai o'r ffynonellau posibl yn y dyfodol ar gyfer cyllido Awdurdodau Tân ac Achub fel a ganlyn yn yr ymgynghoriad:
  - a. Cyfraniadau gan awdurdodau lleol, fel sy'n digwydd nawr, ond gyda rhyw ffurf o reolaeth allanol ar, neu gytundeb am, lefel cyfraniadau o'r fath. . . .
  - b. Cyllid grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn golygu y byddai'r cyllid sydd ar hyn o bryd yn dod drwy'r awdurdodau lleol yn dod i ben. Yng nghyd-destun cynni parhaus,

mae'n bosibl y byddai'n rhaid cymryd cyllid o'r fath o grant cymorth refeniw llywodraeth leol yn y lle cyntaf. . . .

- c. Praesept y dreth gyngor, h.y., codi swm ychwanegol, a bennir gan yr Awdurdod Tân ac Achub, ar filiau treth gyngor lleol, i dalu am wasanaethau tân ac achub.
- d. Cyfuniad o (a) neu (b) ac (c).'
  - Nodir y farn y dylid addasu'r system bresennol o Awdurdodau Tân ac Achub yn codi cyfraniadau ar awdurdodau lleol. Byddai hyn yn rhoi mwy o atebolrwydd a rheolaeth os oes angen i Awdurdodau Tân ac Achub gytuno i faint o gyllid y byddant yn ei gael bob blwyddyn gyda'u hawdurdodau lleol cyfansoddol.
  - Nodir os na ellir dod i gytundeb, byddai pŵer awtomatig gan Weinidogion Cymru i gymrodeddu rhwng sefyllfa'r Awdurdod Tân ac Achub a'i awdurdodau cyfansoddol. Yn ymarferol, byddai'r pŵer hwn yn golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn pennu cyllideb yn awtomatig pe bai'n ymddangos na allai Awdurdod Tân ac Achub gytuno ar gyllideb fyddai'n adlewyrchiad teg o ofynion penodol gweithredu gwasanaeth brys effeithiol.'

#### Pennod 4 - Cwestiynau Ymgynhori:

13. A ydych chi'n cytuno y dylai Awdurdodau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol gytuno ar faint o gyllid a gaiff Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn, gyda phŵer cymrodeddu wrth gefn ar gyfer Gweinidogion Cymru?

14: A ydych chi'n cytuno, yn y tymor hwy, y dylai Awdurdodau Tân ac Achub fod â'r pwerau i osod praesept y dreth gyngor, gyda gweddill eu cyllid yn dod ar ffurf grantiau gan Lywodraeth Cymru?

15: A oes gennych chi unrhyw gynigion eraill ynglŷn â sut i ddiwygio cyllid Awdurdodau Tân ac Achub sy'n bodloni'r meini prawf ym Mhenodau 1 a 2?

#### Pennod 4 – Ymateb drafft Cyngor Gwynedd:

**Rydym yn cytuno fod trefniadau cyfredol ar gyfer ariannu'r gwasanaeth Tân ac Achub angen ei adolygu. Er bod ymgynghori ar y cynnydd gan yr Awdurdod Tân ac Achub, yr awdurdod sy'n penderfynu ar faint ei gyllideb ei hun, ac nid oes rheolaeth allanol na her annibynnol ar faint cyfraniadau'r awdurdodau lleol.**

**Mae'r trefniadau cyfredol yn aneglur i'r rhai sy'n talu'r dreth cyngor a gall arwain at benderfyniadau anodd i aelodau etholedig wrth iddynt geisio sicrhau cynnydd mor isel â phosib i'r dreth Cyngor. Gall fod yr Awdurdod Tân ac Achub fod eisiau codi eu cyllideb o 6%, sy'n golygu ardoll ychwanegol o oddeutu 0.5% ar y dreth cyngor yng Ngwynedd. Nid yw'n glir i drigolion y Sir wedyn fod 0.5% o'r cynnydd y maent yn ei wynebu y tu allan i reolaeth y Cyngor.**

**Rydym o'r farn y dylid symud tuag at system presept ar gyfer ariannu'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Byddai casglu'r arian ar ran y Gwasanaeth Tân ac Achub yn welliant ar y trefniadau cyfredol o ardoll ar awdurdodau lleol y rhanbarth.**

**Byddai trefn praesept yn sicrhau cysondeb gyda'r modd y cesglir adnoddau ar ran yr Heddlu a Chynghorau Cymuned, a thrwy hynny yn sicrhau tryloywder i'r rhai sy'n talu'r dreth cyngor am gost y gwasanaeth Tân ac Achub.**

## **Pennod 5 Rheoli Perfformiad**

### **Materion Allweddol a nodwyd**

- Nodir y cynnig i greu system newydd fel a ganlyn:
  - a. Byddai'r Fframwaith yn parhau i gael ei adolygu a'i ailgyhoeddi bob 3-5 mlynedd, ac yn cynnwys amcanion strategol ar gyfer y Gwasanaeth.
  - b. Byddai'r dull presennol o ddatblygu'r Fframwaith mewn cydweithrediad llawn â'r Awdurdodau Tân ac Achub ac undebau'r diffoddwyr tân hefyd yn parhau ac, yn yr un modd, berthnasedd y Fframwaith i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
  - c. Gyda phob cyhoeddiad o'r fframwaith, byddai'r Awdurdodau Tân ac Achub yn penderfynu a ddylid mabwysiadu'r amcanion unigol sydd ynddo, eu mabwysiadu gydag addasiadau lleol, neu beidio â'u mabwysiadu o gwbl. Gallai'r Awdurdodau Tân ac Achub benderfynu hefyd gynnwys eu hamcanion eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
  - d. Byddai gofyn i bob Awdurdod Tân ac Achub wedyn gyhoeddi cynllun ar gyfer cyfnod y Fframwaith hwnnw, gan nodi'r amcanion a fabwysiadwyd ganddynt ac (os yw'n briodol) y rhesymau dros beidio â mabwysiadu rhai eraill. Byddai'r cynllun hwnnw hefyd yn nodi sut y gallai'r Awdurdod Tân ac Achub fonitro cynnydd tuag at yr amcanion hynny – a allai mewn rhai achosion ddeillio o'r Fframwaith ei hun.
  - e. Byddai pob Awdurdod Tân ac Achub hefyd yn cynhyrchu adroddiadau cynnydd achlysurol. Byddai amseriad y rhain yn dibynnu ar yr amcanion y maent yn ymdrin â nhw. Byddai adroddiad blynyddol (neu amlach na hyn) yn fwyaf addas ar gyfer amcan yn ymwneud â gweithredu beunyddiol, ond nid felly gydag un a fyddai'n ymwneud â thrawsnewid hirdymor y Gwasanaeth.
  - f. Byddai Gweinidogion Cymru yn cadw eu dyletswydd i adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol bob dwy flynedd ar y cynnydd o ran darparu'r Fframwaith, a'u pwerau i ymyrryd.

#### **Pennod 5 - Cwestiynau Ymgynghori:**

16. A ydych chi'n cytuno y dylai'r system rheoli perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub fod yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub
17. A ydych chi'n cytuno bod angen system o'r fath i roi hyblygrwydd i Awdurdodau Tân ac Achub o ran cylchoedd cynllunio ac adrodd, ac o ran y ffynonellau gwybodaeth y maen nhw yn eu defnyddio ar gyfer perfformiad?
18. A ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gadw eu dyletswydd i adrodd i'r Cynulliad am sut y caiff y fframwaith ei ddarparu, a'u pwerau i ymyrryd?

#### **Pennod 5 - Ymateb Cyngor Gwynedd:**

**Mae'r elfen o reoli perfformiad y gwasanaeth yn llwyr ddibynnol ar y newidiadau eraill i'r trefniadau llywodraethu a chyllido'r Awdurdod Tân ac Achub.**

## Adroddiad i'r Cabinet

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	29 Ionawr, 2019
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Gareth Roberts
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	01286 679 468
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant

### 1. **CYFLWYNIAD**

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion.
- 1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Adrannol.
- 1.3 Ar y cyfan rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant, o'm rhan y gwasanaethau sydd o dan fy nghyfrifoldeb i

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

## 3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. BLAENORIAETHAU'R ADRAN

4.1 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor wedi blaenoriaethu cynlluniau gwella o fewn Cynllun y Cyngor. Mae'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn arwain ar 3 prosiect sef :-

- Ail Ddylunio Gwasanaethau Gofal
- Gwydnwch Cymunedol
- Recriwtio i'r Maes Gofal

4.2 Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu paratoi gan yr Adran ar gyfer y 3 blaenoriaeth a cherrig milltir ar gyfer cyfnod y Cynllun wedi eu gosod.

4.3 Pwrpas y Prosiect **Ail Ddylunio Gwasanaethau Gofal** yw sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal drwy dreialu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

4.4 Bydd y Cabinet yn ymwybodol o gynllun iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach' sydd yn gosod cyfeiriad clir i ddatblygu modelau gofal newydd, sy'n canolbwyntio'r gwasanaethau o amgylch yr unigolyn a'u teulu, mor agos â'u cartref â phosibl. Mae'n pwysleisio'r angen i wasanaethau fod yn ataliol, yn hawdd eu defnyddio ac yn uchel eu hansawdd. Mae'n werth nodi bod 'Cymru Iachach' yn dilyn yr union drywydd yr ydym arno yn barod fel Adran, ac rydym ar flaen y gad yn hynny o beth o ran ein gweledigaeth a'r cynlluniau trawsffurfio yr ydym yn gweithio arnynt.

4.5 Mae'r 5 Tîm Ardal (TAC) eisoes wedi eu sefydlu ac er mwyn gwreiddio'r newid, atgyfnerthu'r weledigaeth â sicrhau bod y newid yn y diwylliant yn parhau, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu a staff y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r Trydedd Sector yn y 5 Ardal ddechrau Hydref 2018. Cafwyd presenoldeb da iawn ar draws y gwasanaethau yn y sesiynau. Mae rhaglen gefnogaeth nawr wedi ei lunio i gefnogi staff ac arweinwyr y 5 Ardal er mwyn cefnogi ymhellach gyda'r siwrnai o ran ymarfer a newid diwylliant weithio.

4.6 Mae gwaith yn digwydd yn ogystal i wella profiad pobl wrth drosglwyddo o'r ysbytai yn ôl i'r gymuned. Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw cryfhau ein timau cymunedol er mwyn gwella ein gallu i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned.

- 4.7 Mae nifer yr unigolion sydd yn methu eu rhyddhau yn amserol o'r ysbyty oherwydd rhesymau cymdeithasol wedi lleihau dros y 3 mis diwethaf. Fel mae'r ffigyrau yn nodi, roedd cyfartaledd misol o 10 unigolyn yn aros am ofal cartref rhwng Gorffennaf a Medi 2018. Bu i'r ffigwr hwn gostwng i 5 fis Hydref 2018. Ar amser y cyfarfod herio perfformiad, nid oedd unrhyw un wedi bod yn aros am ofal cartref i'w rhyddhau o'r ysbyty dros y 3 wythnos blaenorol. Mae datblygiad y timau adnoddau cymunedol (TAC) a datblygu cynlluniau gofal cartref yn ardal Tywyn a Bethesda wedi cyfrannu at y lleihad. Yn ogystal i hyn mae arbrawf ar ward Ogwen Ysbyty Gwynedd yn ceisio gwella'r system trosglwyddo cleifion, er yn ddyddiau cynnar, mae'n dangos arwyddion diddorol a chadarnhaol iawn, byddaf yn eich diweddarau ar yr arbrawf yma i'r dyfodol. Yr her i'r gwasanaeth fydd parhau i gadw'r ystadegau yn isel dros gyfnod prysur y gaef ac wrth wynebu sefyllfa ansicr cwmni gofal Allied sydd yn tynnu allan o ddarparu nifer o becynnau gofal mewn sawl ardal.
- 4.8 Braf yw cael adrodd bu i denantiaid cyntaf Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest symud i mewn wythnos y 7fed o Ionawr. Darparu mewnol y Cyngor fydd yn darparu gofal yn Hafod y Gest a'r dalgylch ac rydym wedi bod yn llwyddiannus yn recriwtio gofalwyr ar gyfer y safle. Bydd yn debygol bydd 203 awr (yr wythnos) o ofal yn cael ei ddarparu yn gychwynnol sydd ychydig yn is na'r 250 awr (yr wythnos) a ragdybiwyd.
- 4.9 Mae'r Bwrdd Trawsffurfio Anableddau Dysgu yn datblygu ac yn aeddfedu. Mae cynlluniau manwl mewn lle gyda'r darparwyr yn adrodd eu bod yn gweld gwerth i'r Bwrdd. Mae cyd weithio a chyd cynllunio da yn digwydd. Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r maes Anableddau Dysgu gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol. Mae'r Adran wrthi'n gweithio ar gynlluniau i ddatblygu Canolfan Gwystl er mwyn ei ddatblygu fel hwb cymunedol. Mae Hwb Arfon yn parhau i ddatblygu'n dda.
- 4.10 Pwrpas y prosiect **Gwydnwch Cymunedol** yma yw adeiladu ar y cryfderau sydd o fewn ein cymunedau a cheisio hyrwyddo a cyd-gynhyrchu ystod lawn o gefnogaeth ataliol er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau.
- 4.11 Mae newid yn y diwylliant yn rhywbeth sydd ychydig mwy anodd ei wneud ac i'w brofi, ond mae trefniadau mewn lle gan yr Adran i gynnal adolygiad mis yma i weld lle yr ydym wedi ei gyrraedd ac i adnabod beth sydd angen ei ddatblygu ymhellach o ran y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth (IAA). Gwyddech fod y Gwasanaeth yma yn ofyn statudol bellach ac yn wasanaeth newydd o fewn yr Adran. O dan yr hen drefn nid oedd gan swyddogion wybodaeth ddigonol am yr hyn oedd ar gael o fewn cymunedau lleol ac o ganlyniad yn sugno pobl mewn i'r sistem yn hytrach na hyrwyddo llesiant. Bwriad y gwasanaeth newydd yw rhoi gwybodaeth gywir ac amserol i bobl Gwynedd am yr adnoddau, chysylltiadau a rhwydweithiau sydd ar gael iddynt yn lleol. Mae'r Gwasanaeth IAA yn cyd fynd ag egwyddorion 'Ffordd Gwynedd' gan ei fod yn gasgliad o drefniadau gwaith, ymddygiadau a diwylliant sydd gyda'i gilydd, yn caniatáu i ni fod yn hyderus ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn gyntaf bob tro. Edrychaf ymlaen at gael eich

diweddarau ar y gwerthusid a'r rhaglen waith fydd yn deillio ohono, fydd yn ein galluogi i fod yn fwy rhagweithiol o fewn ein cymunedau.

- 4.12 Mae'r Cynllun Cysylltwyr Cymunedol wedi cychwyn ers Medi 2017 ac wedi lleoli unigolion a noddir gan asiantaeth 3ydd sector oddi mewn i 3 o'r TAC. Maent yn mapio gwasanaethau a grwpiau sydd yn bodoli o fewn cymunedau gan gysylltu unigolion sydd angen cymorth gyda'r gwasanaethau hynny ynghyd ac adnabod bylchau yn y gwasanaeth a hybu mentrau cymunedol.
- 4.13 Yn ardal Llyn aethpwyd ati i greu partneriaeth leol sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau llesiant a sicrhau cyd weithio effeithiol ar draws sawl ffin. Mae'r asiantaeth drafnidiaeth gymunedol "O Ddrws I Ddrws" wedi bod yn greiddiol i'w ddatblygiad yn ogystal â phrosiect sydd wedi ei ariannu drwy'r Loteri Fawr o'r enw "Be Wnawn ni heddiw". Mae'r Cysylltwr Cymunedol lleol yn gweinyddu'r cyfarfodydd a elwir yn "Cyd weithio er Lles Llyn" ac mae'n dod a rhan ddeiliaid a phencampwyr cymunedol mor eang â'r ficer sy'n rhedeg y Banc Bwyd i'r heddwes cymunedol at ei gilydd.
- 4.14 Mae'r Adran yn awyddus i sicrhau fod cysylltydd cymunedol yn rhan o'r 5 TAC i'r dyfodol a'u bod yn pontio holl wasanaethau oedolion yn hytrach na dim ond pobl hŷn. Mae bwriad felly i ddatblygu partneriaethau tebyg i Lles Llyn ar draws Gwynedd.
- 4.15 Pwrpas y prosiect arloesol 'Pontio'r Cenedlaethau' yw atal unigrwydd rhwng plant, pobl ifanc a phobl hyn trwy ddod a hwy at ei gilydd i wneud gweithgareddau hwyliog a diddorol. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu gyda myfyrwyr addysg bellach yng Ngholeg Meirion Dwyfor ac yn cael ei werthuso gan fyfyrwr Meistr o Ganolfan Ymchwil Heneiddio Dementia Prifysgol Bangor. Yn dilyn 2 cyfres lwyddiannus (6 wythnos yr un) o Bontio'r Cenedlaethau ym Mangor a Nefyn, mae'r Uned Llesiant wedi mynd ati i drefnu gweithgareddau rhwng tenantiaid Tai Gwarchod yn y Bermo a phlant Ysgol y Traeth. Mae'r Uned Llesiant yn ogystal yn gweithio gyda Phennaeth Safle Grŵp Llandrillo Menai yn Nolgellau ar wneud cyswllt rhwng eu myfyrwyr a phobl hŷn, a rhagwelir y gall hyn gefnogi recriwtio mwy o bobl ifanc i'r maes gofal cymdeithasol.
- 4.16 O fewn y maes gofalwyr, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru wedi llunio strategaeth sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr o bob oedran. Mae'r strategaeth wedi arwain at ddatblygu a chyd gynhyrchu 'cynnig' i ofalwyr, sy'n cynnwys safonau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwymo i'w cyflawni. Byddwn yn lleol dros y misoedd nesaf yn mynd ati i ystyried y strategaeth a llunio cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn ymrwymo yn llawn i'r safonau.
- 4.17 Pwrpas y prosiect **Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal** yma yw sicrhau ein bod yn wir ddeall y broblem recriwtio i'r maes gofal yng Ngwynedd.
- 4.18 Mae llawer yn digwydd o fewn y prosiect gydag amryw o gynlluniau yn ceisio mynd i'r afael o wahanol agweddau i geisio deall y broblem yn well. Byddwch yn ymwybodol o'r prosiect Gofal cartref sydd wedi bod yn weithredol ym



Methesda sydd yn ceisio mynd i'r afael o'r broblem o fewn y maes gofal cartref.

- 4.19 Mae darn o waith hefyd wedi ei gomisiynu i wella ein dealltwriaeth ac adnabod prif negeseuon o ran y maes pobl hyn ac bu i sesiwn ei drefnu ym mis Medi i wella dealltwriaeth aelodau o'r her recriwtio sy'n bodoli yn ogystal â cheisio canfod eu sylwadau a barn ar gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.
- 4.20 Mae'r Timau Ardal yn ogystal yn cynnal ymarferiad ar y cyd gyda'n partneriaid i gasglu gwybodaeth am achosion mewn un ardal benodol. Bydd y tîm yn craffu achosion yn fanwl er mwyn dod i ddeall yn well beth yw'r angen o fewn un ardal fechan. Bydd posib yna dod i gasgliad am ddatrysiadau posib.

## 5. PERFFORMIAD

- 5.1 Fel rwyf eisoes wedi nodi, rwy'n gyfforddus gyda mesurau perfformiad yr Adran, er bod peth gwaith dal ei angen i sicrhau bod y mesurau sydd wedi eu datblygu yn gyflawn ac yn gywir. Rwyf wedi gofyn i'r Adran wneud gwaith pellach ar rhain a byddaf yn sicrhau bod rhain yn fwy pwrpasol i'r dyfodol.
- 5.2 Mae gwaith wedi digwydd i ddatblygu mesurau lechyd Meddwl. Hyderaf y byddaf mewn sefyllfa i adrodd ar rhain yn fy adroddiad nesaf. Mater i ddwys i'ch sylw yw'r diffyg ar draws y Gogledd o seiciatryddion (Doctoriaid s12) yn enwedig yn ardaloedd De Gwynedd ac Arfon. Ar hyn o bryd nid oes cysondeb gofal i unigolion ac mae'r diffyg yn effeithio ar y gofal sydd ar gael i'r rhai sydd yn byw gyda dementia e.e. Mae'r Adran yn adrodd ei fod yn anodd cefnogi pobl sydd a chyflyrau iechyd meddwl yn y gymuned heb y gefnogaeth seiciatryddol. Mae'r mater yma wedi cael ei uchafu gan y Cyfarwyddwr Statudol i'r Bwrdd lechyd a deallaf fod y mater yn derbyn eu sylw, er nad oes ateb tymor byr i'r broblem. Mae trafodaethau yn parhau.
- 5.3 Serch hyn mae nifer o ddatblygiadau positif a chyffroes yn digwydd o fewn y maes lechyd Meddwl. Mae peth pryder am y maes wedi bodoli ers peth amser ond bellach rydym yn gweld datblygiadau sydd gyda'r pwyslais ar ymyrryd yn gynnar a gwaith ataliol yn digwydd. Drwy'r Bwrdd' Law yn Llawn at lechyd Meddwl' a'r tîm lleol mae barbwrs, canolfannau harddwch, siopau trin gwallt ac ati wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol mewn iechyd meddwl er mwyn annog sgysiau agored i ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ond hefyd i gynnig ymateb yn gynnar i unrhyw broblem.
- 5.4 Mae mesurau'r Hwb Diogelu yn awgrymu llithriad yn y perfformiad gyda **chanran cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae'r risg wedi ei reoli yn 85.7%**. Yn ystod y cyfnod mae 5 unigolyn wedi gwrthod ymyrraeth. I'r sawl sydd yn gwrthod ymyrraeth mae'r Adran yn parhau i gynnig cefnogaeth i'r unigolion a'u teuluoedd. Mae **canran o ymholiadau amddiffyn oedolion cwblhawyd o fewn amserlen statudol yn 71%**, bu i'r Adran adrodd mai'r rheswm am y llithriad oedd oherwydd aelod o staff wedi gadael ei swydd. Mae'r Adran yn hyderus bod y gwaith diogelu wedi digwydd ond dim o fewn yr amserlen statudol. Mae aelod newydd wedi ei phenodi i'r rôl fydd yn arwain at well perfformiad i'r dyfodol.

- 5.5 Mae'r uned diogelu wedi craffu achosion yn fanwl dros y 2 flynedd diwethaf ac maent yn cadarnhau nad oes patrwm amlwg i'r math o gamdriniaeth. Mae'r Adran yn nodi bod cyd weithio da rhwng asiantaethau wrth ymateb i unrhyw honiad.
- 5.6 Mae cydnabyddiaeth fod angen adolygu'r modd yr ydym yn adrodd ar fesur ein pwrpas. Mae'r ystadegau presennol yn nodi fod **100%** o unigolion yn gallu **cyflawni'r hyn sydd yn bwysig iddynt**. Nifer fechan o achosion sydd wedi adrodd arnynt yma. Mae grŵp tasg wedi bod yn adolygu ac addasu'r ddogfennaeth asesu ac mae'r ddogfennaeth newydd yn cael eu treialu ar hyn o bryd a bydd fersiwn terfynol yn weithredol o fis yma ymlaen. Mae'r ddogfennaeth newydd yn atgyfnerthu cryfderau unigolion ac wedi symleiddio'r dull o adrodd ar gynnydd ar allbynnau personol. Bydd posib cael adroddiad mwy cywir o'r dogfennau newydd ynghyd a gwybodaeth fanwl ynghylch ac unrhyw angen sydd ddim yn cael ei ddiwallu. Bydd y wybodaeth yma o gymorth i'r arweinydd ddatblygu a gwella cefnogaeth yn y TAC ac yn bwydo i'r asesiad anghenion poblogaeth ar gyfer comisiynu gwasanaethau addas lleol.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

- 6.1 Ers adrodd i'r Cabinet ym mis Medi, mae gwerth y cynlluniau arbedion y flwyddyn 2017/18 sydd ar ôl, ond yn symud yn eu blaen o ran gwireddu, wedi lleihau o £683,240 gyda £222,500 o'r arbedion eisoes wedi eu gwireddu ac £89,000 ar drac i gyflawni'n amserol sydd yn gadael £371,740 eto i'w gwireddu.
- 6.2 O ran cynlluniau 2018/19 mae 89% o arbedion a thoriadau 2018/19 wedi eu gwireddu. Mae'r £70,000 sy'n weddill ar drac i gyflawni'n amserol.
- 6.3 Mae adolygiad diwedd Tachwedd yn dangos bod y gorwariant 'gross' o £486,000 wedi lleihau i £29,000 drwy ddefnyddio grant Lywodraeth Cymru (£457,000).
- 6.4 Mae bygythiadau yng nghyfraniadau gan lechyd (CHC) i'r dyfodol yn ychwanegu at yr her. Mae'r Bwrdd lechyd yn ail asesu holl gynlluniau CHC ac mae peryg bydd lleihad mewn cyfraniadau a throsglwyddo'r gost i awdurdodau lleol. Wrth gwrs, mae risgiau i gynnal pobl ag anghenion uchel ar ben eu hunain o fewn y gymuned ac mae'r mater yma yn derbyn sylw rhanbarthol ac yn ceisio sicrhau mai anghenion pobl sydd yn gyrru penderfyniadau yn hytrach nag arian. Mae sawl her arall ar y gorwel gall olygu bod blwyddyn ariannol nesaf yn heriol iawn.
- 6.5 Mae bwriad gan yr Adran i ddadansoddi yn fanwl gwariant o fewn y maes Darparu a'i gymharu â gwasanaethau eraill. Mae gwaith ar y gweill i adnabod y rhesymau pam bod y tueddiad gorwario yn digwydd. Byddaf yn eich diweddarau chi fel aelodau yn fy adroddiad nesaf.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 7.1 Dim i'w nodi

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1 Barn y Swyddogion Statudol:

#### i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau ynglyn a phriodoldeb.

#### ii. Y Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ariannol a gyflwynir ym mharagraffau 6.1 - 6.3 o'r adroddiad, a cytunaf gyda geiriau'r awdur ym mharagraff 6.4 bod sawl her arall ar y gorwel erbyn 2019/20.

Cytunaf gyda'r bwriad ym mharagraff 6.5 i ddadansoddi gwariant y gwasanaeth Darparu, ymhellach i dueddiad gorwariant cynyddol dros flynyddoedd diweddar.

### 8.2. Barn yr Aelod Lleol:

8.2.1 Dim yn fater lleol.

### 8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

### Atodiadau:

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad


# Mesurau Perfformiad Cenedlaethol

31/01/2015 01/11/2018

Crynodeb o'r mesurau cendlaethol gyda tueddiadau dros amser.

Tud. 20

Dyddiad	Mesurydd	Gwerth	Statws	Llynedd	Cymru	Yn Erbyn Cymru	Tueddiadau
31/10/2018	Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli	85.7	-11.27 %	96.6			
31/10/2018	Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli - Eithrio sawl wedi gwrthod	88.9	-9.57 %	98.3			
31/10/2018	Canran ymholiadau amddiffyn oedolion cwblheuwyd o fewn yr amserlen statudol	71.1	-19.17 %	87.9	80.00	-11.18 %	
31/10/2018	Canran yr oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn.	54.4			67.70	-19.69 %	
31/10/2018	Cyfradd oedoiad mewn gofal am rhesymau gofal cymdeithasol mesul 1000 o'r poblogaeth 75 a drodsodd.	7.9	+57.95 %	5.0	4.74	+66.28 %	
31/10/2018	Faint o amser ar gyfartaledd y mae pobl hŷn (65 oed neu drosgod) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal.	850.9			800.80	+6.25 %	
31/10/2018	Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl.	86.1			82.80	+3.96 %	
31/10/2018	Y Canran o oedolion sydd wedi cwblhau pecyn o alluogi - ac nad oes ganddynt unrhyw becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach.	54.0			82.80	-34.76 %	
31/10/2018	Y Canran o oedolion sydd wedi cwblhau pecyn o alluogi - ac sydd â phrecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach.	31.1			28.00	+11.24 %	



# Mesurau Diogelu ac Ansawdd

Dyddiad	Metric Name	Gwerth Diweddaraf	Perfformiad	Llynedd	Cyfnod Blaenorol	Cymhariaeth i Blaenorol	Tueddiadau
31/10/2018	Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli	85.7	◆ -11.27 %	96.60	83.33	+2.86 %	
31/10/2018	Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli – Eithrio sawl wedi gwrthod	88.9	◆ -9.57 %	98.30	90.91	-2.22 %	
31/10/2018	Canran ymholiadau amddiffyn oedolion cwblheuwyd o fewn yr amserlen statudol	71.1	◆ -19.17 %	87.90	79.17	-10.25 %	

Tud. 21

## OED23 Wnaethom Hyn sy'n Bwysig - Pobl Hyn

Tim Ardal	2017-2018	2018-2019	Total
GW - Tîm Oedolion Alltwen (Canol)	100.0%	100.0%	100.0%
GW - Tîm Oedolion Bangor	100.0%	100.0%	100.0%
GW - Tîm Oedolion Caernarfon	100.0%	100.0%	100.0%
GW - Tîm Oedolion De Meirionnydd	100.0%	100.0%	100.0%
GW - Tîm Oedolion Llyn	97.6%	100.0%	97.9%
<b>Total</b>	<b>99.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>99.3%</b>

## OED24 Wnaethom Hyn sy'n Bwysig - Anabledau Dysgu

Tim Ardal	2017-2018	2018-2019	Total
Anabledau Dysgu	97.0%	98.4%	97.5%
<b>Total</b>	<b>97.0%</b>	<b>98.4%</b>	<b>97.5%</b>

**PMA 19 – Cyfradd oediad mewn gofal am rhesymau cymdeithasol mesul 1000 o’r poblogaeth 75 a drosodd**

FinancialYr	QtrFinYr	SCA001_YM	SCA001_Gwynedd	SCA001_Conwy	SCA001_Dinbych	SCA001_Fflint	SCA001_Wrexham	SCA001_Wales	SCA001_BCUHB
2017-2018	Qtr4 2017-2018	1.99	1.03		0.20	0.47	1.64	1.02	0.79
	Qtr3 2017-2018	1.72	1.35	0.14		0.55	0.27	0.97	0.61
	Qtr2 2017-2018	1.59	1.90	0.14	0.20	0.32	0.73	0.86	0.76
	Qtr1 2017-2018	1.33	0.71	0.07	0.10	0.63	0.73	0.78	0.54
	<b>Total</b>	<b>6.63</b>	<b>4.99</b>	<b>0.34</b>	<b>0.50</b>	<b>1.97</b>	<b>3.36</b>	<b>3.62</b>	<b>2.70</b>
2018-2019	Qtr1 2018-2019	2.39	1.74	0.14	0.20	0.71	2.45	1.17	1.17
	Qtr2 2018-2019	1.86	2.46	0.14	0.60	0.71	2.27	1.12	1.27
	Qtr3 2018-2019	0.27	0.40		0.20	0.39	0.73	0.43	0.32
	<b>Total</b>	<b>4.51</b>	<b>4.60</b>	<b>0.27</b>	<b>1.00</b>	<b>1.82</b>	<b>5.45</b>	<b>2.72</b>	<b>2.76</b>
<b>Total</b>		<b>11.14</b>	<b>9.59</b>	<b>0.61</b>	<b>1.50</b>	<b>3.79</b>	<b>8.81</b>	<b>6.34</b>	<b>5.46</b>

### Adroddiad i Cabinet

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	29 Ionawr, 2019
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Dilwyn Morgan Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	01286 679468
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad Plant a Chefnogi Teuluoedd

---

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddarau ar berfformiad y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion.
- 1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli perthnasol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.
- 1.3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau rwy'n gyfrifol amdanynt. Serch hyn mae'r Adran yn wynebu heriau ariannol arwyddocaol. Nid oes atebion hawdd na tymor byr i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau ond byddaf yn gweithio yn agos gyda'r Adran ar y cynlluniau sydd ar waith sydd yn ceisio ymateb i'r her dros y misoedd nesaf.

Cyswllt:

01286 679729 • 01286 679490

[cabinet@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cabinet@gwynedd.llyw.cymru)



## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a'n bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r angen i fod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r disgwyl a bod sylw digonol yn cael ei roi i leihau gorwariant.

## 4. BLAENORIAETHAU'R ADRAN

4.1 Bydd y Cabinet yn ymwybodol mai'r 2 prosiect sydd yn cael ei arwain gan yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd fel rhan o gynllun gwella'r Cyngor yw'r

- Strategaeth Cefnogi Teuluoedd
- Rhiantu Corfforaethol.

4.2 Pwrpas y **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd** yw datblygu gwasanaethau llawer mwy integredig o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid gan ganolbwyntio ein hymyraethau ar adnabod anghenion yn gynnar, targedu teuluoedd yn gywir a chynnig gwasanaethau i leihau'r angen am ymyrraeth fwy dwys.

4.3 Gallaf gadarnhau bod rhaglen waith ar yr agenda yn symud yn ei flaen ar ddiweddarau asesiadau anghenion a'u dadansoddi i lefelau lleol ar gyfer asesiad poblogaeth Gwynedd. Mae gwaith pellach wedi digwydd i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi Teuluoedd ar draws Gwynedd yn barod, a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Mae'r gwaith yma yn gwella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, ac yn ein harwain i gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r anghenion ar y cyd gyda'n partneriaid.

4.4 Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cefnogi Teulu a chyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i uno eu grantiau ataliol wedi rhoi cyfle i ni adlewyrchu ar ein cyfeiriad. Rwyf, ar y cyd gyda rhai o fy nghyd-aelodau, yn awyddus i edrych yn ehangach ar y maes ataliol a'r gefnogaeth yr ydym yn ei ddarparu ar draws ein holl wasanaethau i drigolion y sir i fynd i'r afael a rhai o'r rhwystrau maent yn ei wynebu. Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau sy'n mynd i'r afael a chefnogi pobl gyda materion amrywiol megis anawsterau rhiantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda camddefnyddio sylweddau, alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

4.5 Felly mae'n fwriad gennym sefydlu **Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl** i edrych yn wrthrychol ar sut yr ydym yn cefnogi pobl, gan wrth gwrs wneud hyn drwy edrych ar ein systemau drwy eu llygaid hwy. Byddai'r Bwrdd yn cynnwys yr holl gyswllt / gwasanaethau sydd yn chwarae eu rhan o dan yr agenda hyn. Mae cyfarfod cychwynnol o'r Bwrdd wedi ei drefnu yn ystod y mis yma i drafod ein gweledigaeth gyda'r penaethiaid, fel y gallwn gytuno ar y cyfeiriad, sgôp a rhaglen waith er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym i ddiwallu



anghenion yn gynnar, cyd-gynllunio gwasanaethu ac ymyraethau priodol, ac ystyried effeithlonrwydd ein trefniadau darparu presennol.

- 4.6 Pwrpas y prosiect **Strategaeth Rhiantu Corfforaethol** yw gwella'r cyfleodd ar gyfer plant sydd mewn gofal ym mhob agwedd ar eu bywydau.
- 4.7 Mae cryn waith wedi digwydd yn ystod y cyfnod i geisio adnabod lle mae angen i ni wella ac i adnabod ymarfer da drwy'r grwpiau tasg sydd eisoes wedi eu sefydlu. Rwyf o'r farn bod y blaenoriaeth gwella yma wedi ei gwblhau erbyn hyn. Mae'r Panel wedi adnabod meysydd sydd angen derbyn sylw a rhaglen waith mewn lle i gyfarch hyn ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad yr Arolygaeth Gofal Cymru gan ddisgrifio'r Panel Rhiant Corfforaethol yn 'uchelgeisiol ar gyfer y plant mewn Gofal'.


## 5. PERFFORMIAD

- 5.1 O ran Perfformiad yr Adran, mae'r mesurau yn parhau i awgrymu perfformiad cadarn o ran ymarfer a diogelu. Bu i'r mesurau sydd yn dangos llithriad ers chwarter diwethaf gael eu craffu yn fanwl gan Dîm Rheoli'r Adran ac yn ystod cyfarfod herio perfformiad yr Adran. Gallaf gadarnhau bod eglurhad rhesymol ar gyfer pob un o'r meysydd yma hyd at lefel achosion unigol.
- 5.2 Mae'r **Tîm o Amgylch y Teulu** a'r **Tîm Trothwy Gofal** yn parhau i ddangos perfformiad boddhaol gyda'r ymyraethau i weld yn cael effaith cadarnhaol ar fywydau plant a'u teuluoedd sydd yn derbyn Gwasanaeth. Serch hyn roedd yr Adran yn adrodd bod ganddynt beth pryder ynglŷn ac ymateb ysgolion i bryderon am unigolion ac yn benodol plant sydd ddim yn mynychu ysgol. Mae'r Adran o'r farn bod angen gwell cyd weithio rhwng yr adrannau i sicrhau bod yr ymyraethau cywir ar gael yn gynnar i gefnogi'r plant yma a'u teuluoedd. Mae yno bryder bod problemau yn cael eu gadael i fynd rhy bell o fewn y system Addysg a bod cyfleoedd i fynd i'r afael â rhai materion llawer iawn cynt yn cael eu colli. Gallaf gadarnhau bod y drafodaeth yma wedi cychwyn rhwng yr Adrannau ac mi fyddaf yn eich diweddarau ar y sefyllfa, fel mae'r trafodaethau yn datblygu.
- 5.3 Mae'r **Tîm Derbyn Cyfeiriadau** yn gweld peth llithriad chwarter yma wrth ymateb i gyfeiriadau. **85% o asesiadau yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen statudol (o'i gymharu a 94%)**. Gallaf gadarnhau nad yw'r nifer o ddyddiau allan o'r amserlen statudol yn uchel iawn ond mae'n werth nodi bod y mesurydd yn cynnwys achosion statudol yn ogystal ac achosion ataliol. Rwyf wedi awgrymu i'r adran edrych ar y mesurydd er mwyn gwahaniaethu'r achosion.
- 5.4 Mae'r mesurydd **'Sefl O'r plant sydd wedi symud ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, faint o'r symudiadau oedd am resymau positif ac er lles y plentyn'** yn parhau i ymddangos yn uchel (**63%**). Mae angen bod yn wylidwrus wrth drafod y mesurydd yma gan gall newid ysgol oherwydd symud cartref er lles y plentyn fod yn rhywbeth cadarnhaol iawn. Mae cynlluniau mewn lle a dealltwriaeth manwl o anghenion pob plentyn ac nid yw nifer symudiadau yn angenrheidiol yn rhywbeth negyddol. Oherwydd y rhesymau hyn rwyf wedi gofyn i'r Adran ystyried pwrpas y mesurydd yma ac oes ffordd gwell o fesur llwyddiant i'r dyfodol.
- 5.5 Mae'r mesurau perfformiad sydd yn ymwneud a'r Tîmau Gweithredol yn dangos, ar y cyfan, perfformiad cadarn. Mae'r Mesur **SCC/015 Canran o gyfarfodydd grŵp craidd dechreuol oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn wedi eu cynnal o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd amddiffyn plant dechreuol** yn dangos

peth llithriad (**85%**). Ffenestr 10 diwrnod sydd ar gael ar gyfer cynnal cyfarfod grŵp craidd dechreuol. Mae'n amserlen heriol ac mae'r llithriad yn adlewyrchu nifer fechan o ddyddiau hwyr. Gallaf gadarnhau bod yr achosion yma wedi cael eu craffu yn fanwl ac rwyf o'r farn bod y rhesymau yn dderbyniol.

- 5.6 Mae'r cynnydd sy'n ymddangos yn erbyn mesurydd **PMC27 Canran o ail gofrestru plant ar y gofrestr amddiffyn plant (2 o blant 5.6%)** yn dderbyniol i mi, wedi i mi glywed yr esboniadau. Mae yn ymwneud a materion Diogelu ac yn ymateb priodol dan yr amgylchiadau.

### Canran o ail gofrestriadau ar y gofrestr amddiffyn plant




- 5.7 Bu i 2 berson ifanc brofi digartrefedd yn ystod y cyfnod. **PMC35 Canran o ymadawyr gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn 2.4%**. Bu i'r Adran adrodd mai diffyg cydweithrediad ar ran y person ifanc oedd wedi arwain at y sefyllfa ac unigolion yn sefydlu eu hunain tu allan i'r Sir a cholli cyswllt a'r Adran. Mewn ymateb i'r sefyllfa bu i'r Adran weithio ar ddatblygu cyswllt, cynnig cefnogaeth a threfnu llety pwrpasol ar eu cyfer. Roedd yr Adran yn adrodd yn ystod y cyfarfod perfformiad bod y mater wedi ei ddatrys ac nad oedd un person ifanc yn ddigartref erbyn hyn. Rwyf wedi gofyn i'r Adran feddwl am gamau i'r dyfodol, e.e. creu cysylltiadau gwell a siroedd cyfagos.
- 5.8 O ran y mesurau sydd yn ymwneud a'r maes Diogelu (**SCC21, SCC14**), mae'r 2 mesurydd yma wedi llithro rhywfaint gyda'r mesurydd **SCC14** wedi llithro yn sylweddol (**SCC14 Canran cynadleddau amddiffyn plant dechreuol oedd i fod i cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn wedi eu cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth strategaeth 59%**). Mae'r Adran yn ddibynnol iawn ar y System TG er mwyn cyd-gordio cynadleddau yn amserol ac o fewn amserlen statudol heriol. Prif reswm llithrad chwarter 2 yw oherwydd problem TG, bu i system y Cyngor fod i lawr am 3 diwrnod. Effaith hyn oedd nad oedd modd i'r Adran gael gwybodaeth na dogfennaeth ar gyfer y Cynadleddau a bu i hyn gael effaith sylweddol ar y mesurydd, yn ogystal a'r teuluoedd dan cwstiwn.
- 5.9 Yn ogystal bu i'r Adran adrodd bod pwysau cynyddol ar weithwyr i fynychu achosion llys oherwydd y cynnydd yn niferoedd plant sydd yn destun gweithredu

yn gyfreithiol. Mae hyn yn cael effaith ar gynnal cynadleddau ac adolygiadau plant yn amserol . Mae'r Adran yn ceisio sicrhau cysondeb o ran gweithwyr ac oherwydd hyn bu i 11 achos gael eu hail drefnu oherwydd gweithwyr yn mynychu achosion Llys. Mae'r mater yma yn fater sydd wedi cael ei godi yn rhanbarthol ac yn erbyn sylw y Bwrdd Diogelu Plant.


- 5.10 Mae **canran yr adolygiadau amddiffyn plant sydd yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen statudol yn ystod y flwyddyn yn 93%**, sydd yn fy marn yn berfformiad da. Ond mae angen i mi amlygu y diffyg ymrywiad sydd ar ran ein partneriaid allweddol. Mae'n ymddangos bod effaith yr hinsawdd ariannol yn golygu bod asiantaethau yn ffeindio hi'n anodd i fynychu cyfarfodydd allweddol o fewn y drefn diogelu. Mae hyn yn fater sydd wedi ei amlygu yma eisoes ac wedi cael ei uchafu gan y Pennaeth i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- 5.11 Mae gwella profiad plant a theuluoedd sydd yn mynd drwy'r drefn Diogelu yn rhywbeth sydd yn derbyn sylw gan yr Adran, gyda llai o bwyslais yn cael ei rhoi ar yr amserlen sydd yn cael ei osod, ond yn hytrach ar ansawdd y cyswllt mae'r plant a pobl ifanc yn eu cael gyda ein swyddogion. Mae hyn yr rhywbeth sydd wedi cael ei amlygu gan yr arolygaeth yn ddiweddar ac mae ein Swyddogion Adolygu Annibynnol yn edrych ar y ffordd yn maent yn gweithio a sut gallwn wella a datblygu ymarfer. Byddaf yn cael diweddiariad ar waith y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn y sesiwn herio perfformiad nesaf.
- 5.12 Mae'r mesurydd **SCC24 Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth** wedi derbyn cryn dipyn o sylw yr Adran ar y cyd gyda'r Adran Addysg. Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r Adran Addysg ac mae'r Ddogfen Cynllun Addysg wedi ei adolygu a'i addasu. Mae canran uchel erbyn hyn wedi cael ei gwblhau (sydd ddim yn cael ei adlewyrchu yn erbyn y mesurydd chwarter 2). Mae angen cyfnod estynedig o fonitro llwyddiant y teclyn ond mae canfyddiadau cynnar yn dangos ei fod yn adnabod anghenion y plant yn well, yn cynnwys barn a mewnbwn y plant ac mae gweithwyr yn adrodd bod ansawdd y teclyn yn well. Byddaf yn monitro'r sefyllfa gyda'r Adran.
- 5.13 Ar ddiwedd Medi 2018 roedd 242 o blant yng ngofal y Cyngor. Mae hyn yn gynydd o 7% ar y nifer oedd mewn gofal ddiwedd Medi 2017. Ar ddiwedd Medi roedd 64% o blant mewn gofal, mewn lleoliad maethu, sef 155 o blant. O'r rhain roedd 31% o'r gofalgwyr maeth hyn yn deulu neu'n ffrindiau. Roedd 26% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'i rhieni. Mae'r cynnydd yn nifer o blant sy'n cael eu lleoli gyda'u rhieni yn parhau.
- 5.14 Fel y gwelwch, mae'r gwasanaeth yn wynebu cyfnod anodd a heriol o ran cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r pwysau ariannol sydd ynghlwm a hyn. I'r perwyl hyn byddwch yn ymwybodol bod y Pennaeth wedi gwneud cais am adnodd trawsnewid gwasanaeth er mwyn gwneud adolygiad llawn a thrylwyr o'r holl ddyletswyddau a'r tasgau cysylltiedig ar draws y gwasanaeth er mwyn cael sicrwydd fod y gwasanaeth, yn ei gyfanrwydd, yn ymarfer yn y ffordd mwyaf effeithlon posib er budd pobl Gwynedd ac yn gweithredu unrhyw newidiadau fydd eu hangen i wneud hynny. Edrychaf ymlaen at gael eich diweddarau ar y rhaglen waith penodol yma.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

- 6.1 Fel yr ydych yn ymwybodol, cyflwynwyd adroddiad 'Gwella Buddiannau trwy Drawsffurfio Gwasanaethau Plant' i'r Cabinet yn Ionawr 2014. Roedd hwn yn rhagweld y gellid arbed cymaint â £3m drwy leihau nifer y plant sydd mewn gofal ac adolygu'r ddarpariaeth breswyl.
- 6.2 Mae'r adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd' sydd yn gynllun arbedion £2.04 miliwn yn ei gyfanrwydd (£250,280 ar gyfer 2018/19), wedi bod yn destun adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth, gan ail ymweld a thybiaethau'r model gwreiddiol gan ei bod yn ymddangos fod arbedion ariannol o'r Cynllun wedi bod yn rhy uchelgeisiol yn sgil newid yn yr hinsawdd bresennol yn y maes plant. Mae phroffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid, cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd a chymhlethdod a dwyster achosion. Ni ystyriwyd y newid yma ym mhroffil a chymhlethdod yr achosion o fewn y rhagolygon gwreiddiol a felly yn y cynnydd cost yr uned.




- 6.3 Mae'r gwaith, sydd nawr wedi ei gwblhau wedi cadarnhau bod niferoedd y nosweithiau plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, mae'r math o leoliadau preswyl wedi newid ac felly yn cael effaith ar gost lleoliadau a lleihad hefyd yn y cyfraniadau sydd yn cael eu derbyn gan y Bwrdd Iechyd. Fel mae'r graff uchod yn ei nodi, mae achosion Anabledd Dysgu (oedd yn costio oddeutu £100k y flwyddyn fesul achos) wedi gostwng o tua 8 i tua 1 y flwyddyn. Ond mae'r categori Camdrin / ymddygiad rhywiol wedi cynyddu o tua 5 i 8 y flwyddyn – ac mae cost y rhain oddeutu £175k - £200k y flwyddyn. Felly mae'r gostyngiad mewn cyfanswm y nifer plant preswyl dros y cyfnod, yn ymwneud bron i gyd â'r gostyngiad yn lleoliadau Anabledd Dysgu, ac hyn yn aml yn cyd-fynd ag oed unigolion.



6.4 Yn wyneb y ffaith nad oes llawer o achosion Anabledd Dysgu ar ôl erbyn hyn i allu arbed mwy ar yr elfen yma – yn codi'r cwestiwn pa gategoriâu ellir cael elfen nesaf yr arbedion ohonynt. Oherwydd y newid yn yr anghenion a bod mwy o'r anghenion yn ymwneud a materion ymddygiadol dwys, mae llai o leoliadau yn gymwys i gyfraniadau gan y Bwrdd Iechyd (CC – Continuing Care ). Mewn ymateb i hyn mae'r Adran yn ceisio cael dadansoddiad manwl o gostau darparwyr lleoliadau preswyl er mwyn ceisio herio cyfraniadau mwy teg i'r dyfodol.

### Plant mewn gofal ar ddiwedd chwarter



6.5 Ar sail adolygiad diwedd Tachwedd 2018, mae'r tuedd o orwariant a welwyd yn 2017/18 yn dwysáu, gyda'r gorwariant ar wasanaethau lleoliadau, gweithredol, Arbenigol/Derwen ac eraill wedi cynyddu ers yr adolygiad blaenorol. Rhagwelir gorwariant sylweddol o £1.8 miliwn gan yr Adran, gyda grant gan Llywodraeth Cymru yn dod a hwn lawr i £1.3 miliwn. Gyda cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn ddiweddar yn golygu rhagolygon gorwariant pellach erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

6.6 O ran lefel cyllideb gofal plant fesul poblogaeth yng Ngwynedd o'i gymharu a cynghorau'r 'teulu', rydym yng Ngwynedd yn gyfartal a'r canolrif teulu gyda cynghorau Ceredigion, Ynys Môn, Sir Fynwy a Powys yn gwario mwy ar ofal plant. Fodd bynnag mewn ymateb i'r pryder sydd gan yr Adran a minnau i'r gorwariant sylweddol, mae sawl ffrwd gwaith yn digwydd gan yr Adran i geisio ymateb i'r sefyllfa. Hoffwn gymryd y cyfle i amlinellu rhai o rhain i chi yma.

#### 6.7 **Prosiect Rhanbarthol Lleoliadau Preswyl**

Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r cost cynyddol sydd ynghlwm iddynt yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bu i'r mater yn ddiweddar fod yn destun trafodaeth y 'Parliamentary Accounts Committee Llywodraeth Cymru'. Ar lefel Rhanbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Plant y Gogledd mae gwaith yn digwydd ar asesiad dichonolrwydd rhanbarthol i redeg lleoliad preswyl ar y cyd, neu i edrych ar opsiynau gyda darparwyr presennol ar gyfer plant a phobl ifanc Gogledd Cymru. Mae disgwyl i'r grŵp tasg adrodd yn ôl dechrau Mawrth ar opsiynau. Serch hyn ni fydd hyn yn ateb tymor byr i'r broblem lleoliadau preswyl nag yn dileu'r angen am leoliadau preswyl arbenigol i'r dyfodol.

#### 6.8 **Gwella argaeledd/capaciti Maethu**

Ar lefel Cenedlaethol eto mae cydnabyddiaeth bod diffyg lleoliadau maethu. Bu i'r Grwp Cynghori Gweinidogol ar Ganlyniadau i Blant yn cyhoeddi Fframwaith Gweithredu 2017 – 2020 sydd yn anelu i

- o Lleihau'r niferoedd o blant mewn gofal
- o Gwella profiadau a chanlyniadau gofal
- o Gwell cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal
- o Mynd i'r afael a'r argyfwng mewn gofal

Fel rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol mae rhaglen waith manwl mewn lle yn ceisio mynd i'r afael a'r mater. Mae rheolwr prosiect rhanbarthol yn arwain y gwaith yn y Gogledd o ddadansoddi anghenion awdurdodau lleol, dadansoddi llwybrau gofal, dadansoddi proffil y carfan gofal, dadansoddi canlyniadau llys a lleoliadau a dadansoddi lefelau tor-leoliad. Ar lefel lleol mae gwaith yn bwrw 'mlaen i wella gwaith marchnata i ddenu rhieni maeth, gwella recriwtio a gwella proffil Gwynedd fel asiant maethu. Fel rhieni corfforaethol mae angen i ni fod yn fyw i'r her yma a chefnogi y gwaith yma ble gallwn.

#### 6.9 **Cynllun Trawsffurfio Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Plant**

Bydd y Cabinet yn ymwybodol o Gynllun Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach'. Mewn ymateb i'r cynllun yma mae'r Rhanbarth wedi rhoi cais am arian trawsffurfio ar gyfer 4 maes penodol gyda'r maes Plant yn un o'r rhain. Mae'r bid trawsffurfio maes plant yn ceisio mynd i'r afael a'r materion sydd yn cael eu hwynebu yn genedlaethol sef y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd yn dod mewn i'r system ofal gyda anghenion cymhleth ac yn ceisio sicrhau bod ystod o ymatebion penodol yn cael eu ddatblygu. Mae'r bid trawsffurfio yn pwysleisio yr angen i ddatblygu gwasanaethau mwy integredig ac sydd ar gael ar lefel fwy lleol sydd

yn canolbwyntio at gynnig cymorth cynnar, adeiladu ar y darpariaeth trothwy gofal a chynnig cefnogaeth mwy dwys drwy timau asesu a chymorth.

6.10 Nid yw'r bid yma wedi ei gymeradwyo eto gan Llywodraeth Cymru, byddaf yn eich diweddarau os bydd yn llwyddiannus, bydd yn sicr yn help i yrru ein gweledigaeth ymlaen.

#### 6.11 **Prosiect Model Diogelu Plant Effeithiol**

Mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus i ddenu grant rhanbarthol i symud ymlaen gyda cynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol'. Mae'r cynllun yn ceisio ymateb i anghenion ymarfer gweithwyr o fewn y maes heriol diogelu plant. Yn fras iawn, mae wedi cael ei ddatblygu er mwyn atal camdriniaeth mor effeithiol a phosib, gan arwain at benderfyniadau amserol ble gall gwasanaethau diogelu gamu yn ôl. Y bwriad fydd cyd-weithio gyda'r brifysgol er mwyn adolygu a gwerthuso'r cynllun ac os yw'n dangos llwyddiant ei ledaenu ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da. Mae rheolwr wedi ei phenodi fydd yn arwain ar y gwaith. Dylai'r gwaith hyn gryfhau penderfyniadau o ran ansawdd ac amseriad.

#### 6.12 **Adolygiad Gwasanaeth Integredig Cefnogaeth Dwys i Deuluoedd (IFSS)**

Byddwch yn ymwybodol bod hi'n ofyn statudol arnom i sefydlu gwasanaeth IFSS sydd yn cynnig ymyrraeth dwys i deuluoedd sydd yn wynebu anawsterau camddefnyddio sylweddau a thrais yn y Cartref. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yma ar y cyd gyd Cyngor Ynys Môn. Yn dilyn gwerthusiad lawn o'r gwasanaeth, mae'r Adran o'r farn bod modd cael gwell canlyniadau i'r teuluoedd wrth ddarparu'r gwasanaeth o fewn timau gweithredol a'r fîm trothwy gofal gan osgoi dyblygu. Mae'r gwasanaeth o'r newydd wrthi'n cael ei siapio gan yr Adran gan gadw at yr egwyddorion a'r pwrpas gwreiddiol. Byddwn yn monitro y sefyllfa gyda'r Adran er mwyn sicrhau ein bod yn gweld gwell canlyniadau a hefyd gwasanaeth fwy effeithlon yn ariannol.

6.13 Fel sydd yn amlwg o fewn yr adroddiad yma, mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn wynebu sawl her, nifer yr achosion wedi cynyddu, dwyster achosion wedi cynyddu, yr her ariannol. Ond fel mae'r mesurau perfformiad yn awgrymu, mae ymarfer yn gadarn ac mae ymroddiad gan yr Adran i ymateb i'r heriau yma. Hyderaf bod y trosolwg o'r cynlluniau uchod yn rhoi y sicrwydd yma i chi.

## 7. **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

### 7.1. **Dim i'w nodi.**

## 8. **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### 8.1. **Barn y Swyddogion Statudol:**

#### i. **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglyn a phriodoldeb

#### ii. **Y Pennaeth Cyllid:**

Yn unol â'r tueddiad mewn sawl awdurdod lleol, mae gorwariant yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi dwysau yn ystod 2018/19. Mae'r gorwariant yma ar draws nifer o gyllidebau, ond 'lleoliadau all-sirol' yw'r maes sy'n gorwario fwyaf. Mae swyddogion Cyllid wedi cynorthwyo'r Adran Plant i gynnal adolygiad manwl o'r gwariant ar 'leoliadau all-sirol', gan gynnwys cymharu Gwynedd gyda sefyllfa awdurdod lleol cyffelyb. Yn ffodus eleni, mae grant o £552k wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, sydd yn cynorthwyo i leddfu rhan o'r gorwariant, ond bydd raid i'r Adran Plant edrych ar gamau pendant i reoli'r gwariant yn 2019/20.

## **8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

Dim yn mater lleol.

## **8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

Dim i'w nodi.

---

### **Atodiadau:**

**Atodiad 1**      Mesurau Perfformiad



**ATODIAD 1 – Mesurau Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Tud. 33

Cyf.	Mesur Cyflawni	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Diweddaraf
<b>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</b>						
TTG01	Canran o achosion sydd wedi dangos cynnydd yn unol â phwrpas yr ymyrraeth	-	-	65%	68%	70%
TTG02	Canran o achosion lle dangosir lleihad yn y ffactorau a oedd yn amlwg cyn ymyrraeth y tîm	-	-	79%	70%	60%
SCC/024	Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn	82.1%	37.9%	64%	17.5%	3.4%
SCC/025	Canran yr ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal oedd yn fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	89%	86.9%	90%	91%	92%
SCC/041 (a)	Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol, a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen	100%	100%	100%		99%
SCC/039	Canran yr asesiadau iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn	56%	60%	68%	65%	100%
SCC/041(b)	Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cyngorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt	100%	100%	100%		67%
SCC021	Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn	93.8%	90.8%	91%	89%	100%
Lles PMG 2	Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal	100%	100%	100%		99%
PMG 11	Canran o blant mewn gofal, a drafodwyd mewn adolygiad lle fod y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad ydynt yn parhau mewn risg o niwed arwyddocaol yn ei lleoliad cyfredol	-	89%	91%	95%	96%
PMG 12	Canran o blant mewn gofal, a drafodwyd mewn adolygiad lle fod y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn fod y lleoliad cyfredol wedi sicrhau sefydlogrwydd i'r plentyn	-	90%	95%	95%	95%
PMG 13	Canran o blant mewn gofal, a drafodwyd mewn adolygiad lle fod y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn fod iechyd a lles y plentyn wedi cael sylw priodol yn y Cynllun Gofal	-	90%	94%	95%	94%
PMG 14	Canran o blant mewn gofal, a drafodwyd mewn adolygiad lle fod y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn fod Cynllun Gofal y plentyn yn uchelgeisiol ar gyfer y plentyn (fel pe byddai yn blentyn i ni)	-	91%	94%	94%	97%
Diogelu 1	Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol	100%	100%	100%	100%	100%
Diogelu 2	Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau	98%	97%	94%	96%	100%
CSP - lleol	Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd 'cynnydd' yn dilyn derbyn gwasanaeth gan TAT (Tîm o Amgylch y Teulu)	-	25.3%	95%	92%	92.9%

SCC021	Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn	93.8%	90.8%	91%	89%	85%
PMC32	Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth	16.10%	18.1%	17.7%		60%

# Eitem 8 CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	Ionawr 29ain 2019
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Gareth Thomas Aelod Cabinet Addysg
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Dilwyn Williams, Prif Weithredwr
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	01286 679685
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad Addysg

### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau'r Adran.
- 1.2. Byddwn yn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd Herio Perfformiad oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.
- 1.3. Erbyn hyn rydym yn gweithredu Cynllun y Cyngor 2018-23 a gafodd ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn mis Mawrth 2018. Yma, rwyf yn adrodd ar y cynnydd ers mis Hydref 2018 hyd at Dachwedd 2018.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

### 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

### 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

#### 4.1. Trawsnewid y Gyfundrefn Addysg

- 4.1.1 Yn 2016 bu i ni ymgynghori ar gyfres o egwyddorion ddylai fod yn sail i unrhyw newid i'r dyfodol, a phwrpas y prosiect yma yw sefydlu cynllun i wreiddio'r egwyddorion hynny er mwyn sicrhau cyfundrefn addysg hyfyw fydd yn sicrhau fod pob plentyn yn y sir yn cael cyfle teg i ddatblygu eu potensial.
- 4.1.2 Cafodd yr egwyddorion addysg ei mabwysiadu gan y Cabinet ar 18 o Ragfyr 2018. Mae'r egwyddorion yn ystyried modelau cynaliadwy ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ynghyd â'r modelau arweinyddiaeth ar gyfer ein hysgolion. Mae'r Egwyddorion eisoes yn cael ystyriaeth wrth wireddu prosiectau Band A a Band B

Ysgolion G21 a rhain bellach fydd yr egwyddorion sylfaenol y byddwn yn eu hystyried wrth ymateb i unrhyw gyfleoedd i'r dyfodol.

## **4.2. Cryfhau Arweinyddiaeth**

4.2.1 Bydd y prosiect yma yn annog a hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion, gan ymrwymo i raglenni datblygu arweinyddiaeth sydd ar gael. Byddwn hefyd yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r rhaglenni hyn. Mae'r prosiect hwn yn angenrheidiol ar gyfer llwyddiant y gwaith ar y prosiect Trawsnewid y Gyfundrefn Addysg.

4.2.2 Mae'r Cyngor eisoes yn cynllunio mewn cydweithrediad gyda GwE i roi trefniadau hyfforddi perthnasol ar gyfer datblygu arweinwyr y dyfodol ond yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion a nodir uchod mae yna waith sgopio pellach yn cael ei wneud i'r opsiynau a'r cyfleoedd pellach sydd angen eu llunio i gryfhau arweinyddiaeth ymhellach, gyda'r bwriad i osod ffrydiau gwaith a thargedau clir ar gyfer y prosiect.

## **4.3. Rhaglen Ysgolion Ganrif 21**

### **4.3.1 Dalgylch Bangor**

Bwriad y prosiect hwn yw adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor gan edrych ar roi cynllun newydd ar waith fydd yn gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

### **Ysgol y Garnedd**

Cafodd penderfyniad swyddogol ei wneud ar 21ain o Dachwedd i adeiladu ysgol newydd i'r Garnedd, ac i gau ysgolion Coedmawr a Glanadda. Mae'r cais cynllunio wedi ei gymeradwyo, ac mae'r ymchwiladau tir a'r dyluniad wedi eu cwblhau. Mi fydd yr adeiladwyr ar y safle yn mis Ionawr 2019.

### **Ysgol y Faenol**

Mae'r ymgynghoriad statudol wedi gorffen ers 30ain o Hydref, gan ddilyn gyda chyfarfod o'r Corff Llywodraethol i adrodd yn ôl ar sylwadau a dderbyniwyd. Penderfynodd y Corff i symud ymlaen i ryddhau rhybuddion statudol. Gyda chynllun amlinellol ar y dyluniad wedi'i gytuno er mwyn gallu symud ymlaen i ddylunio manwl.

### **4.3.2 Dalgylch y Bala**

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu 3-19 cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn, fydd yn cynnig gwasanaethau i'r gymuned leol, erbyn mis Medi 2019.

Mae'r Ysgol bellach wedi ei henwi fel Ysgol Godre'r Berwyn. Bydd y Pennaeth yn cychwyn yn ei swydd yn ystod Ionawr 2019. Ar 29ain o Dachwedd cafodd y strwythur staffio, swydd ddisgrifiadau a'r broses benodi ei chyflwyno, gyda chyfnod o ymgynghori hyd at 14eg o Ionawr. Mae amserlen ddrafft ar gyfer penodi mewn lle, a rhagwelir cynnal y cyfweiliadau yn ystod mis Chwefror. Defnyddiwyd y gwersi a ddysgwyd wrth fynd trwy'r broses yn Nolgellau er mwyn ystwythio'r drefn yn y Bala. Mae cytundeb ar gyfer deunydd y gofod cymdeithasol wedi'i lunio.

Mae'r prosiect yma yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen ac nid oes unrhyw risgiau cyllidol (cyfalaf) ar hyn o bryd.

### **4.3.3 Ôl -16**

Gan ein bod yn cael trafferthion cael cwmni derbyniol i fedru cynnal asesiad cynhwysol ar draws y sir daethpwyd i'r casgliad bellach y bydd yn rhaid i ni wneud cryn dipyn o'r gwaith ein hunain ac felly sefydliwyd Tim mewnol i gyflawni elfennau o ofynion Cam 1 y briff sef y gwaith ymchwil pen desg. Yn wyneb yr oedi sydd wedi bod wrth geisio cael gafael ar gwmni cymwys 'rwyf wedi gofyn i'r Adran sicrhau ein bod yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i mewn i hyn er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach a cheisio cadw mor agos a phosibl at yr amserlen sydd gennym.

## **4.4 Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

4.4.1 Pwrpas y prosiect hwn yw i drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

4.4.2 Mae gwedd 1 o'r gwaith o drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad wedi ei gwblhau (sef yr ail strwythuro angenrheidiol) ond mae yna nifer o agweddau eraill sydd angen sylw yn Gwedd 2 sy'n ymwneud a'r ddeddf newydd a phriodoli hynny a'r trefniadau newydd i brosesau gwaith ar draws ein hysgolion. Mae gwaith Trawsnewid Rhanbarthol yn mynd ymlaen er mwyn gosod cyfeiriad i weithredu Deddfwriaeth ADY.

4.4.3 Lanswyd gwefan newydd ar gyfer y Gwasanaeth ADYaCh ar y 5ed o Dachwedd, [www.adyach.cymru](http://www.adyach.cymru)

## **4.5 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol**

4.5.1. Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant y Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd. Penodwyd Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd yn ystod y cyfnod, a bydd y Cydlynnydd yn darparu her a chefnogaeth i'n hysgolion uwchradd, gan sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned.

4.5.2. Mae'r holl ysgolion uwchradd wedi derbyn cefnogaeth i weithredu'r gwe iaith gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn ystod tymor yr Hydref 2018.

4.5.3 Mae pob ysgol uwchradd yn derbyn cefnogaeth i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth Iaith ac ail-ymweld a'u Cynlluniau Gweithredu unigol, gyda sylw i'r cyfrwng ar draws y Cwricwlwm. At hyn, mae Cynllun Gweithredu wedi ei lunio i gefnogi gweithlu Ysgol Friars i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

4.5.4 Drwy Gomiswn gan Lywodraeth Cymru, mae sesiynau Seicoleg Iaith: Hyfforddi'r Hyfforddwr yn cael eu peilota mewn nifer o ysgolion ar draws y rhanbarth, gan gynnwys Ysgol Bro Idris.

## **5. MESUR PERFFORMIAD**

- 5.1. Bydd canlyniadau terfynol Haf 2018 yn cael ei cyflwyno ger bron y Pwyllgor Craffu ar 24 Ionawr 2019. Hoffwn dynnu eich sylw i gynodeb isod o lefel uchel o ganlyniadau Saesneg 2018 a'i effaith ar Wunedd.
- 5.2. Cofrestrwyd oddeutu 85% o ddisgyblion blwyddyn 11 Gwynedd ar gyfer TGAU Saesneg am y tro cyntaf a'r unig dro ym mis Mehefin 2018. Er yn gwrs llinol dwy flynedd fe ganiatawyd i ysgolion gofrestru dysgwyr yn gynnar. Yn dilyn hyn, fe gyhoeddodd cymwysterau Cymru adroddiad a nododd 'Ar ôl pwysu a mesur, credwn fod y defnydd eang parhaus o gofrestru cynnar a lluosog ar gyfer TGAU yn peri risg i fyfyrwyr a'r system, na ellir eu cyfiawnhau yn hawdd. Mae'r arfer hefyd yn golygu costau sylweddol i'r system'. Cymeradwyodd yr ysgrifennydd cabinet dros addysg yr adroddiad a bu newid i'r polisi Cenedlaethol mai ond y radd cyntaf y bydd disgybl yn ei ennill fydd yn cyfri tuag at ganlyniadau ysgol o ddangosyddion perfformio ysgol gyfan.
- 5.3. Yn sgil hyn, penderfynodd bron bob un o ysgolion Gwynedd i gofrestru disgyblion ar gyfer Saesneg unwaith, a hynny ar ddiwedd y cwrs dwy flynedd. Ond ar ddiwrnod canlyniadau Awst 2018, fe wnaeth ffin gradd C godi 20 marc o'i gymharu â marc haf 2017. Bu gostyngiad o 11.8% yn raddau A\*-C disgyblion Gwynedd o'i gymharu â'r haf blaenorol. Er bod Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi adroddiad hynod dechnegol i gyfiawnhau eu prosesau, mae penaethiaid a swyddogion Gwynedd yn parhau yn anfodlon iawn ac o'r farn nad yw'r cyfiawnhad yn ddigonol.
- 5.4. Mae'r cynnydd sylweddol yn ffiniau graddau C Saesneg, beth bynnag fo'r cyfiawnhad dros hynny wedi golygu'r effaith ganlynol ar ddysgwyr a staff yng Ngwynedd:
- nifer fawr o ddysgwyr Gwynedd wedi ennill marc oedd yn uwch na'r ffiniau blaenorol ar gyfer C, ond wedi derbyn gradd D
  - gan fod marc gradd B hefyd wedi codi 10 marc, mae nifer o ddysgwyr wedi colli allan ar gymhwyster hanfodol ar gyfer mynd i ddysgu
  - dysgwyr heb gael mynediad i goleg, cyrsiau chweched dosbarth o'i dewis cyntaf a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol wedi ei effeithio gan nad oes ganddynt C mewn Saesneg
  - effaith ar 'morâl' athrawon, a'i hyder i fesur safon bellach, os ydi gradd C yn codi 20 marc mewn blwyddyn, sut maent i dargedu, rhagfynegi, cynghori a chefnogi.
  - Mae hyder arweinwyr ein hysgolion yn y sistem yn naturiol yn fregus.

## 5.2 . Mesurau Adran Addysg

- 5.2.1 Fel i mi adrodd ym mis Hydref, mae'r Adran Addysg yn y broses o adolygu eu holl fesurau wrth i bob adran fynd trwy broses Ffordd Gwynedd. Hefyd mae newidiadau arfaethedig i ddangosyddion cenedlaethol, felly, byddaf mewn sefyllfa i adrodd ymhellach ar y mesurau newydd a'r dangosyddion y tro nesaf.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

### Cynlluniau 2017/18 a 2018/19 ymlaen

- 6.1. Mae elfen 2018/19 o'r Cynllun Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad bellach wedi ei wireddu gydag elfen 2019/20 ar drac i gyflawni'n amserol.

- 6.2 O safbwynt y cynllun Arbedion Ychwanegol Ysgolion, mae'r arbedion o £198,000 a £65,000 ar drac i'w cyflawni'n amserol gyda'r arbedion eisoes wedi eu hadnabod o gynlluniau ail-strwythuro ysgolion. Mewn perthynas â'r arbediad o £298,990 mae'r ysgolion eisoes yn ymwybodol o amseriad y toriad yn eu cyllidebau.
- 6.3 Mae cynllun cynyddu pris pryddau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50 wedi ei wireddu yn 2017/18 ac am cyllideb 2018/19 wedi ei addasu ar gyfer yr arbediad o £43,750. Mae rhagolygon incwm diweddaraf yn awgrymu fod yr incwm £163k yn fyr o'i darged eleni tra noder fod yna danwariant o £109k ar bryniant bwydydd.
- 6.4 Gosodwyd targed incwm o £194k ar y Cynllun Gofal Plant Cyn Ysgol ar sail y byddai 55% o rieni yn talu am y gofal. Mae rhagolygon diweddaraf yn awgrymu mai 38% o rieni sydd yn talu am y gofal yn golygu diffyg incwm o £60k.
- 6.5 **Gorwariant Cludiant**

Yn ein cyfarfod herio perfformiad cafwyd dadasnoddad o'r amrywol resymau pam fod yna orwariant ar y gyllideb cludiant ysgolion.

Gellid priodoli'r prif resymau fel a ganlyn:

£149,000 oherwydd cytundebau newydd yn sgil agor ysgol Hafod Lon – roedd hyn yn groes i'r tybiaeth a wnaed ar y cychwyn a bydd angen gwaith pellach i ddeall pam.

£125,000 oherwydd cytundebau newydd yn y maes ymddygiad. Nid oes cyllideb cludiant ar gyfer y maes yma ac fe fydd yn rhaid i hyn dderbyn sylw wrth edrych ar y trefniadau anghenion dysgu ychwanegol.

£73,000 oherwydd cynnydd yn unedau ABC Dolgellau a Chymerau gan fod y ddwy uned ar agor 4 diwrnod yr wythnos tra bod y ddarpariaeth flaenorol yn Eifion Wyn ar agor 5 diwrnod yr wythnos.

£69,000 oherwydd effaith ail dendro dros yr haf.

£69,000 oherwydd cytundebau newydd prif lif.

Manion oedd gweddill y gorwariant.

Un mater arall o bryder a godwyd yn ystod ein trafodaethau oedd y ffaith, wedi ni dyrchu ymhellach, nad oedd y ffigyrau a adroddwyd yn wreiddiol yn ddibynadwy. Mae yna nifer o elfennau o bosibl yn gyfrifol am hyn.

Gwelwyd hefyd fod gennym enghreifftiau penodol o deithiau drud ofnadwy sydd yn codi cwestiynau ynglyn a phwy syd yn cadw golwg ar hyn oll.

Yn y cyfarfod herio perfformiad bu i mi nodi fod angen ystyried y materion yma oll er mwyn sicrhau rheolaeth briodol ac mae'r Prif Weithredwr yn bwriadu galw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol yn lonawr er mwyn dod a'r mater i drefn.

Byddaf yn adrodd ymhellach i'r cyfarfod herio perfformiad nesaf.

## **7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **7.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglyn a phriodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Nodaf fod datblygiadau sylweddol ym maes Addysg sydd ag ymhlygiadau ariannol, gan gynnwys y buddsoddiad cyfalaf crybwyllir yn rhan 4.3 o'r adroddiad, a datganoli cyllidebau anghenion dysgu ychwanegol yn rhan 4.4.

Ynglŷn ag arbedion o gynyddu pris prydau ysgolion cynradd (rhan 6.3) a gofal plant cyn-ysgol (rhan 6.4), mae'n resymegol fod codi pris yn lleihau'r galw i ddechrau. Os bydd cynlluniau arbedion yr Adran yn parhau i gynhyrchu incwm annigonol, yna bydd raid ystyried camau amgen er mwyn mantoli'r gyllideb adrannol.

Mae'r gorwariant cynyddol mewn costau cludiant disgyblion (rhan 6.5 o'r adroddiad) wedi'i nodi yn f'adroddiad adolygiad cyllideb fu gerbron cyfarfod 22 Ionawr y Cabinet. Mae'n bryder fod y gorwariant yma'n parhau, a nodaf y bwriad i alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol (o'r adrannau Addysg ac Amgylchedd) er mwyn sicrhau rheolaeth briodol, ac i adrodd i gyfarfod perfformiad nesaf yr Aelod Cabinet dros Addysg.

**7.2. Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

**7.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

Dim.

**Dogfennau Cefndirol:**

Dim.



## CYNGOR GWYNEDD

### ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	29 Ionawr, 2019
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai, Diwylliant & Hamdden
<b>Swyddogion Cyswllt:</b>	Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	01286 679685
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad Tai, Diwylliant a Hamdden

---

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai, Diwylliant a Hamdden. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion.
- 1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r fim rheoli Economi a Chymuned ac Oedolion, Llesiant a Thai, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.
- 1.3. Rwy'n hapus efo'r perfformiad yn gyffredinol, ac yn awyddus i weld ni'n parhau i lwyddo er gwaetha'r holl heriau fydd yr adrannau yn wynebu yn y dyfodol agos. Blaenoriaeth gennyf yn y cyfnod nesa fydd i sicrhau bod gennym Strategaeth fydd yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y Maes Tai i'r dyfodol.

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

4.1. Pwrpas y prosiect **Tai Addas a Fforddiadwy** yw sicrhau fod gennym ddealltwriaeth fanwl o natur y galw am dai o fewn ein cymunedau, fel y gallwn gynllunio ar gyfer y dyfodol a gwneud gwahaniaeth. I'r perwyl hyn mae'r Adran Tai wedi bod yn gweithio ar asesu anghenion Tai yng Ngwynedd ac wedi ymgynghori ar y canfyddiadau yn ystod y chwarter diwethaf. Mae'r gwaith o gwblhau'r Asesiad Anghenion Tai yn sylfaen gref i'r Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd (2018-2023) sydd ar fin cael ei chyflwyno i'r Cabinet yma yn ystod y Mis nesaf. Mae'r Strategaeth yn gosod uchelgais clir ar gyfer y maes Tai yn ei gyfanrwydd gyda Chartrefi fforddiadwy ac addas yn gyrru ein cynlluniau i'r dyfodol.

4.2 Mae'r prosiect **Adnabod a Hyrwyddo Cynlluniau a Mentrau Tai** yn ceisio gwella mynediad trigolion at gymorth sydd yn ymwneud ac anghenion Tai, gan adnabod mentrau a chynlluniau sydd ar gael i'w cynorthwyo. Mae'r heriau sydd yn wynebu pobl yn amrywio'n fawr ac mae'n allweddol ein bod yn rhoi beth sydd yn bwysig i bobl wrth galon ein hymyraethau. Eto mae'r Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd yn mynd i'r afael a hyn. Bydd yr Adran yn adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl o fewn y maes Tai i sicrhau ei fod yn cwrdd â beth sy'n bwysig i bobl ac yn cael ei ddarparu mor effeithiol â phosib.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

5.1 Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn Adran Economi a Chymuned. Yno, rwyf yn gyfrifol am Wasanaeth Hamdden, Ieuenctid, Adfywio Cymunedol, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd a Gwybodaeth.

5.2 Pwrpas y **Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** yw sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddysgu ac ennill sgiliau, darllen a mwynhau. Mae'n galonogol iawn fod 99% o ddefnyddwyr yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbynnir.

5.3 Bellach mae Prydles Llyfrgell Bethesda wedi ei drosglwyddo i ofal Partneriaeth Ogwen fel rhan o'r strategaeth Mwy na Llyfrau gan sicrhau dyfodol i wasanaethau Llyfrgell yn Nyffryn Ogwen.

5.4 Rwy'n falch iawn fod 2,422 o blant Gwynedd wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen Haf Llyfrgelloedd Gwynedd yn ystod Haf 2018, gyda 1,681 yn cwblhau'r sialens. Golyga hyn fod y plant wedi ymweld â'u llyfrgell o leiaf 3 gwaith yn ystod cyfnod gwyliau'r haf hyd at ddiwedd mis Medi, gan lwyddo i ddarllen o leiaf 6 llyfr. Cafodd 46,851 o lyfrau plant eu darllen dros gyfnod y sialens a bu dros 1,000 o blant fynychu gweithgaredd Hwyl Haf i Blant a drefnwyd gan Lyfrgelloedd Gwynedd. O gymharu gyda ffigwr cenedlaethol i Gymru, roedd Gwynedd yn 5ed (allan o 22) o ran nifer yn cymryd rhan. Mae canlyniadau'r Sialens yn gadarnhaol iawn, ac mae'n dangos fod Llyfrgelloedd lleol yn adnodd hanfodol er mwyn galluogi mynediad.

- 5.5 Mae gwaith da iawn wedi gwneud ym Mhenygroes, yn dilyn tensiwn oedd wedi codi rhwng anghenion pobl ifanc a defnyddwyr eraill y Llyfrgell. Trefnwyd cyfarfod o gynrychiolwyr gwasanaethau plant a phobl ifanc yn yr ardal, ac mae'r grŵp yn edrych ar gydwethio traws-sector er mwyn cefnogi'r cynnig Hamdden a dysgu i bobl ifanc yn Nyffryn Nantlle.
- 5.6 Mae'r **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar gasgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef: Storiell ac Amgueddfa Lloyd George. Mae grant CDL wedi ei sicrhau er mwyn edrych ar opsiynau ar gyfer sicrhau dyfodol Amgueddfa Lloyd George. Rydw i yn awyddus i adolygu model busnes Storiell, er mwyn sicrhau gwneud y defnydd gorau o'r adnodd mewn modd cynaliadwy.
- 5.7 Cafodd Neuadd Buddug ei gau ddiwedd Rhagfyr 2018, a bydd yr adnoddau yn cael ei throsglwyddo i'r Ysgol ym mis Ionawr er mwyn darparu adnodd celfyddydol cymunedol.
- 5.8 Pwrpas y **Gwasanaeth Archifau** yw gwarchod ein cofnodion cyhoeddus a sicrhau fod gan bobl fynediad atynt, drwy ddarparu dau Archifdy yng Ngwynedd. Mae'n gadarnhaol fod 97% o ddefnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth. Mae gostyngiad yng nghyllideb Gwasanaeth Archifau i Ysgolion wedi'i restru fel toriad posibl, ond hoffwn dynnu sylw i bwysigrwydd y gwasanaeth hwn i'n hysgolion drwy gynnig cyfleoedd i fagu sgiliau perthnasol fel yr argymhellir hwy yn y Cwricwlwm yn ogystal â datblygu cynulleidfa ifanc i ymddiddori yn hanes eu cymuned i greu ymdeimlad o berthyn a chryfhau eu hunaniaeth.
- 5.9 Mae'r **Gwasanaeth Adfywio Cymunedol** yn cefnogi pobl a mentrau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio. Rydw i yn falch o weld y tîm yn torri tir newydd yn Bermo, drwy gynnal peilot trosglwyddo asedau Bermo, mae'r gwaith cynllunio busnes wedi cwblhau gyda chytundeb yn lleol ar y ffordd ymlaen.
- 5.10 Pwrpas y **Gwasanaeth Ieuentid** yw sicrhau mynediad at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol i bobl ifanc (11-25 oed) sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro, mwynhau a chwarae rhan lawn yn eu cymunedau.
- 5.11 Bellach mae'r strwythur staffio newydd mewn lle a recriwtio yn parhau, ac mae staff yn adrodd eu bod yn hapus iawn yn eu gwaith "Dwi'n lyfio fy swydd". Mae'n galonogol iawn fod 1,107 o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth hyd yma, drwy amryw o weithgareddau gan gynnwys gwaith ymgysylltu, gwirfoddoli yn eu cymuned, sgiliau coginio a chwaraeon. Mae ymateb da iawn wedi derbyn gan bobl ifanc a rhieni, "Meddwl y byswn i'n rhoi adborth i chi ar ôl i'r mab fynychu sesiwn ym Mhenygroes nos Iau dwytha - roedd o a'i ffrindiau wedi mwynhau eu hunain yn ofnadwy - yng ngeiriau'r mab pan ddaeth i mewn i'r car - "O Mam - oedd hwna'n class wan sdi!" (e-bost gan riant).
- 5.12 Cefais y fraint o groesawu ac agor Lansiad y Gwasanaeth Ieuentid Ôl-16 yn ddiweddar a braf oedd cael clywed gan bobl ifanc am eu llwyddiant yn sgil cael cefnogaeth gan y tîm hwn.
- 5.13 Mae'r gwaith o gefnogi Cynghorau Cymuned yn parhau, gyda chlybiau cymdeithasol bellach wedi eu sefydlu ac ar agor yn Nefyn, Caernarfon, a Llanrug, a gwaith recriwtio yn parhau yn Bryn-crug, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog.

- 5.14 Mae'r Gwasanaeth Hamdden yn rheoli rhwydwaith o 12 o **Ganolfannau Byw'n lach** yn y Sir. Mae'r gwaith yn parhau gyda sefydlu'r cwmni Byw'n lach Cyf, gyda llawer o ymdrech yn mynd mewn i'r broses, mae'n braf gweld fod y gwasanaeth yn dysgu dipyn o'r broses. Mae'r gwaith yn mynd ymlaen yn unol a'r amserlen, ac bydd y gwasanaeth yn trosglwyddo ar Ebrill 1af 2019.
- 5.15 Hoffwn dynnu'ch sylw i'r risg o golli incwm sylweddol o'r canolfannau gyda chyflwr y caeau 3G yn dirywio, rydym eisoes wedi gweld yr effaith gyda chae 3G Plas Ffrancon yn cau. Mae'n risg ar berfformiad cyllidol y Gwasanaeth, ac felly mae angen cael cynllun mewn lle ar gyfer trefniadau adnewyddu. Rydw i yn falch o weld perfformiad Plas Ffrancon wedi gwella yn dilyn cwblhau Asesiad Quest.
- 5.16 Yn ogystal mae'r Gwasanaeth Hamdden yn darparu **rhaglenni Byw yn lach a Chwaraeon** sy'n cynnig ystod o weithgareddau corfforol cynhwysol. Mae newid i drefniadau y grant dderbynnir gan Chwaraeon Cymru, yn ystod mis Rhagfyr mae Awdurdodau Lleol a partneriaid yn rhanbarth y Gogledd wedi cytuno symud ymlaen i baratoi cynnig grant rhanbarthol ar gyfer y dyfodol.
- 5.17 Rydw i yn falch iawn fod newid ym model ariannu cynllun NERS yng Ngwynedd sydd yn golygu fod hyblygrwydd i gynnig holl weithgareddau NERS ym mhob lleoliad, sy'n sicrhau fod holl drigolion Gwynedd yn cael mynediad i'r un cynnig.
- 5.18 Mae'r Cynllun Llysgenhadon Ifanc Gwynedd yn parhau yn llwyddiannus gyda 255 o Lysgenhadon yn rhoi oriau o amser gwirfoddoli i'r cynllun. Rydw i yn falch iawn fod 8 o Lysgenhadon wedi cynrychioli'r Awdurdod yng Nghynhadledd Genedlaethol yng Nghaerdydd, gyda Hannah Hughes sy'n gyfrifol am y cynllun yn ennill Swyddog Llysgenhadon Ifanc y flwyddyn.
- 5.19 Pwrpas y prosiect **Cydymdrechu yn erbyn tlodi** yw adolygu ein trefniadau yn y maes Tlodi er mwyn sicrhau ein bod yn targedu ein hymdrechion yn y lle y gwnaiff fwyaf o wahaniaeth. Trosglwyddwyd y prosiect yma o'r Adran Economi i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd eleni.
- 5.20 Gydag amserlen cyflwyno Credyd Cynhwysol yn y Sir yn llithro, penderfynwyd cadw'r prosiect yn fyw hyd at ddiwedd Mawrth 2019 er mwyn parhau i gefnogi pobl i ymdopi gyda newidiadau i fudd-daliadau. Mae'r gwaith yn symud ymlaen dan arweiniad y Grŵp Diwygio Lles Gwynedd. Lanswyd ymgyrch marchnata drwy Newyddion Gwynedd a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth a hysbysu trigolion sut i baratoi ar gyfer y newidiadau. Bellach mae Credyd Cynhwysol yn fyw yng Ngwynedd ers mis Rhagfyr 2018.
- 5.21 Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cefnogaeth cymorth ariannol (PBS) i hawlwr newydd Credyd Cynhwysol nes diwedd mis Mawrth 2019, gyda CHAB yn cynnig y ddarpariaeth wedi hynny. Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu'r gronfa Tâl Tai Dewisol gyda 1,370 o geisiadau wedi cymeradwyo i ddyddiad eleni.
- 5.22 Mae angen dod i gytundeb ar ffordd ymlaen gyda'r prosiect yma gan ystyried y cyd berthynas gyda'r strategaeth cefnogi teuluoedd a chefnogi pobl ehnagach.
- 5.23 Mi fydd y Cabinet eisoes yn ymwybodol o'r galw cynyddol ar y gwasanaeth Digartrefedd yn dilyn dyfodiad Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu bydd y cynnydd hwn yn parhau gyda chyfran uchel iawn o bobl sengl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae cynnydd o 36% mewn aelwydydd yn derbyn gwasanaeth yn 2017/18 o'i gymharu â 2014/15.

- 5.24 Adroddwyd gan yr Uned Ddigartrefedd yn ystod y cyfarfod perfformiad bod canran uchel o'r rhai sydd yn cyflwyno yn ddigartref i'r Cyngor yn bobl sydd yn gadael carchar. I'r perwyl hyn mae'r Uned wedi datblygu cynllun ailsefydlu carcharorion sydd yn ffordd newydd o weithio sydd yn rhoi'r unigolyn yn ganolog. Mae'r Swyddog 'Ail Sefydlu' yn un pwynt cyswllt sydd yn darparu gwasanaethu o fewn y carchar ac ar ôl i'r unigolion cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae cydweithio agos yn digwydd gyda'n partneriaid allweddol ac yn ystod 2017/18 bu i'r Swyddog weithio gyda chyfanswm o 120 unigolion gyda 41% yn cael eu lletya. Diffyg eiddo un llofft gyda chefnogaeth ar gyfer pobl sengl bregus sydd yn gadael carchar yw'r rhwystr mwyaf i'r grŵp yma o unigolion.

*Mae A yn ei 50au gyda hanes hir o droseddu a chamddefnyddio sylweddau. Mae wedi dioddef camdriniaeth yn y gorffennol. Bu i A dderbyn gwasanaeth drwy'r Cynllun Ail Sefydlu. Bu i A fyw mewn un o'n hosteli yn gychwynnol, yn dilyn cefnogaeth llwyddodd i gael tenantiaeth gyda cynllun Tai a Cymorth Gwasgaredig Gwynedd. Bu iddo dderbyn cymorth i ddeall rheolau'r tŷ, ei hawliau a'i gyfrifoldebau fel tenant, cymorth gyda cyllidebau a chynhwysiant ariannol ac erbyn hyn mae'n rheoli ei denantiaeth yn arbennig o dda.*

*Mae'r effaith cymorth a llety sefydlog ar A yn sylweddol. Nid yw'n troseddu ac mae yn fodlon derbyn cefnogaeth arbenigol ar gyfer ei gamddefnydd o sylweddau. Nid yw A yn barod i fod mewn gwaith eto ond yn hapus i dderbyn cefnogaeth i gymryd rhan mewn addysg.*

- 5.25 Yn ymateb i'r o ddiffyg eiddo un llofft, mae'r gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda'r asiantaeth Trydedd Sector, Cais i adnabod eiddo ar gyfer pobl sengl bregus yn Ardal Bangor. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu fydd yn darparu llety a chefnogaeth ddwys, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion yw galluogi i fyw yn annibynnol.
- 5.26 Datblygiad arall o fewn y maes digartrefedd yw'r prosiect 'cefnogaeth ddwys i bobl sydd yn cysgu allan'. Mae'r gwasanaeth yn cydweithio gyda Thai Gogledd Cymru a drwy help grant Llywodraeth Cymru mae swyddog cefnogaeth wedi cael ei benodi i geisio annog pobl i gydweithio, helpu i ddatrys eu problemau a'u cefnogi i symud ymlaen i lety sefydlog.

*Roedd person sengl wedi bod yn cysgu allan ger drws siop yn y dref ers rhai misoedd. Roedd y gwasanaeth digartrefedd yn derbyn nifer o alwadau ffon gan y cyhoedd a gan perchennog y siop yn poeni am gyflwr iechyd yr unigolyn. Daeth yn amlwg fod yr unigolyn yn wael, gyda anghenion iechyd meddwl dwys yn ogystal a iechyd corfforol gwael iawn. Bu i'r swyddog cefnogaeth ymweld yn ddyddiol yn fuan yn y bore ac wedi llwyddo i ddatblygu perthynas gyda'r unigolyn. O ganlyniad bu iddo dderbyn cymorth a derbyn triniaeth yn yr ysbyty am ei gyflwr meddygol. Bu i gyswllt parhau tra yn yr ysbyty ac mae trefniadau mewn llaw i ddarparu llety pan fydd yn barod i adael yr ysbyty.*

- 5.27 I'r perwyl hyn, mae'r Adran wedi cyflwyno cais am arian 'Rhaglen Tai Arloesol' Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian ar gyfer datblygu unedau hyblyg 'pods'. Bydd yr unedau yma yn cynnig cartref gyda chefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau sydd yn anodd eu lleoli, y bwriad bydd datblygu 4 'pod' ar gyfer 4 unigolyn. Bydd gwaith yn cychwyn yn fuan ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

- 5.28 Mae'r mesurydd **nifer o ddiwrnodiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi grant cyfleusterau anabl (247 diwrnod)** yn dangos peth llithriad. Serch hyn, mae'r uned wedi holi 96 person sydd wedi derbyn addasiad sydd wedi ei gwblhau yn ystod y

ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn. Dywedodd 90% ohonynt eu bod yn fodlon iawn gyda'r addasiadau a 86% yn cytuno yn gryf iawn bod eu hansawdd bywyd wedi gwella.

- 5.29 Mae'r Uned addasiadau wedi bod yn craffu achosion yn fanwl ac yn adrodd mai rhwystr mwyaf i gwblhau'r addasiadau yn amserol yw'r diffyg ar hyn o bryd mewn niferoedd o therapyddion galwedigaethol sydd ar gael i wneud yr asesiadau sydd eu hangen. Yn ogystal i hyn mae'r Uned o'r farn bod modd cynnig ymyrraeth ataliol yn gynharach fydd yn osgoi'r angen am addasiadau cymhleth ac ar amser ble mae cyflyrau wedi gwaethygu. Mae sawl cynnig wedi cael eu rhoi gan yr Uned i geisio ymateb i'r materion yma fydd yn derbyn sylw dros yr wythnosau nesaf gan yr Adran ehangach.
- 5.30 Mae'r **Tîm Tag Gwag** wedi gweld llwyddiant ysgubol ar eu cynllun 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf'. Dros y 9 mis diwethaf, mae'r Tîm wedi derbyn 115 o geisiadau am y grant hwn, ac eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.5 miliwn o grant ar 85 o'r ceisiadau hyn. Bydd yn cartrefu bron i 200 o unigolion a theuluoedd. Ers cychwyn y cynllun mae'r Tîm wedi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau am flaendal morgeisi sydd ar gael i helpu prynwyr tro cyntaf cael mynediad i'r farchnad dai.
- 5.31 Bydd y Cabinet yn ymwybodol bod nifer o dai gwag yn uchel ar draws y Sir a bod yr Adran yn gweithio i ddod a'r tai hyn yn ôl i ddefnydd i drigolion Gwynedd. Mae oddeutu 1300 o dai yn wag ar draws y Sir. Mae cynnydd positif wedi bod yn erbyn y mesurydd **PSR/004 Canran o anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1af Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol**. Erbyn diwedd y cyfnod perfformiad yma mae 14 tŷ wedi dod yn ôl i ddefnydd gyda 33 o bobl Gwynedd wedi cael eu cartrefu.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

- 6.1 O ran y cynllun rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol, bydd Cwmni Byw'n lach Cyf yn gyfrifol am reoli'r ddarpariaeth cyfleusterau hamdden o 1af o Ebrill 2019.
- 6.2 Mae £100,000 o arbediad 2018/19 y cynllun HAM4 Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol wedi ei gyflawni, ond derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet 16 Hydref 2018 i ailbroffilio'r £156,500 o'r arbedion gan na fydd y ddarpariaeth cyfleusterau hamdden yn trosglwyddo i Gwmni Byw'n lach Cyf bellach tan 1 Ebrill 2019. Mae'r £131,410 ar gyfer 2019/20 ar drac i gyflawni'n amserol.
- 6.3 O ran y maes Tai, ers adrodd i'r Tîm Herio Perfformiad ym mis Medi, gallaf gadarnhau bod yr Adran ar drac i wireddu £89,000 o arbedion.
- 6.4 Gwariant Tebygol Cynlluniau Cyfalaf y maes Tai 2017-18 yw £4.3m. Mae hyn yn cynnwys £950k ar grantiau i'r anabl i addasu eu cartrefi (sydd yn cynnwys Grant Llywodraeth o £150k); £1.35m ar gynlluniau prynwyr tro cyntaf a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd; a grant o £1.36m gan y Llywodraeth i ddatblygu safle sipsiwn; £250k ar gyfer y Cynllun TRIP (Targeted Regeneration Investment Programme) sydd yn gynllun ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn; £410k ar faterion eraill yn cynnwys materion gorfodaeth.

## **7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

7.1. Dim i'w nodi.

## **8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **8.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

#### **i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglyn a phriodoldeb

#### **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ariannol a gyflwynir yn rhan 6 o'r adroddiad.

### **8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

### **8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

### **Atodiadau:**

#### **Atodiad 1 –**

Mesurau  
Perfformiad  
Hamdden a  
Diwylliant

#### **Atodiad 2 –**

Mesurau  
Perfformiad  
Tai

### **Dogfennau Cefndirol:**

Dim.

# MESURAU'R AELOD CABINET TAI, DIWYLLIANT & HAMDDEN – ADRAN ECONOMI & CHYMUNED

## 1. Rhaglenni Byw'n Iach a Chwaraeon

Tud. 48

Mesurydd	Perfformiad 2015-16	Perfformiad 2016-17	Perfformiad 2017-18	Perfformiad 2018-19	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 2)	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 3)	Sylwadau ar y perfformiad
% y Plant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd Safon y Cwricwlwm Cenedlaethol	82%  Gorffennaf 2015  75% Cymru	78%  Gorffennaf 2016  (Dim yn cael eu rhannu ar lefel Cymru o hyn ymlaen)	83%  Gorffennaf 2017	85%  Gorffennaf 2018	-	-	Dim ystadegau yn cael eu casglu tan Gorffennaf 2019
% wedi gwella sgôr ansawdd bywyd gyda chefnogaeth y Tîm cyfeirio i Ymarfer	59%	66%	68%	56%	71%	64%	



## 2. Canolfannau Byw'n Iach

Tud. 49

Mesurydd	Perfformiad 2015-16	Perfformiad 2016-17	Perfformiad 2017-18	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 1)	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 2)	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 3)	Sylwadau ar y perfformiad
Nifer o ymweliadau fesul 1000 y pen o'r boblogaeth i ganolfannau hamdden	10,278	11,010	9,968	2,402	4,624	7,163	Perfformiad ychydig yn uwch na proffil 17/18 erbyn hyn. Haf poeth wedi arwain i ostyngiad mewn ymweliadau Ch2.
Bodlonrwydd Cwsmer gyda darpariaeth ac ansawdd y canolfannau hamdden	-	89.36%	88.15%	89.54%	n/a	n/a	Canlyniadau cadarnhaol o'r Arolwg cyntaf yn dangos gwelliant bach. Ansawdd Staff yn parhau i gynhyrchu'r canlyniadau gorau. Bydd canlyniadau'r ail arolwg ar gael yn ystod Ch4.

## 3. Gwasanaeth Archifau

Mesurydd	Perfformiad 2015-16	Perfformiad 2016-17	Perfformiad 2017-18	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 1)	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 2)	Sylwadau ar y perfformiad
Bodlonrwydd Cwsmer			96%	94%	97%	449 o ddefnyddwyr wedi cwblhau'r slipiau, 437 (97%) yn fodlon iawn, 11 (3%) yn fodlon: "Ardderchog, pawb yn fwy na barod i helpu" "Extremely fast document retrieval and staff were really friendly and helpful"

## 4. Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Tud. 50

Mesurydd	Perfformiad 2015-16	Perfformiad 2016-17	Perfformiad 2017-18	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 1)	Perfformiad 2018-19 (Chwarter 2)	Sylwadau ar y perfformiad
Nifer benthyciadau eitemau	-	-	<b>473,255</b>	<b>113,389</b>	<b>130,295</b>	<p>Rydym yn llwyddo i ddal ein tir. Ar ol toriad o 25% i'r gronfa lyfrau yn 2016 rydym yn dechrau sefydlogi ein perfformiad. Byddai unrhyw doriad pellach yn effeithio ar ein cynnig i ddefnyddwyr– sef cael amrediado lyfrau'r rheiny yn llyfrau mae pobl Gwynedd eisiau eu darllen- dyma yw ein bara menyn.</p> <p>Yn galonogol iawn, Llyfrgell Penygores a gofnododd 6ed benthyciadau uchaf – 7801 o fenthyciadau yn Chwarter 2. Mae Chwarter 2 hefyd yn arferol yn adlewyrchucynnydd yn y defnydd gan blant a phobl ifanc – sy'n cael ei adlewyrchu yn y cynnydd yn y benthycioadau deunyddiauplant a phobl ifanc.</p>
Nifer ymweliadau	-	-	<b>346,567</b>	<b>5386</b>	<b>6902</b>	<p>Cyfrifir ymwelwyr a phob Llyfrgell trwy ddull mecanyddol (staff yn cyfri) pedairgwaith y flwyddyn. Rhaid ystyrieddibynadwyedd y dull cofnodi yn enwedig ble bo mwy nag un mynedfa a bod defnyddwyr yn defnyddio hunanwasanaeth o ran Pcs a'r Ciosgs – nid oes traffig trwy'r brif ddesg.</p>

## 5. Gwasanaeth leuenctid

Mesurydd	Perfformiad 2015-16	Perfformiad 2016-17	Perfformiad 2017-18	Perfformiad Chwarter 1 2018-19  (diwedd blwyddyn academaidd	Perfformiad Chwarter 2 2018-19	Perfformiad Chwarter 3 2018-19	Sylwadau ar y perfformiad
Nifer unigolion sy'n aelodau o'r Gwasanaeth leuenctid	-	-	5638	5638	Dim yn casglu data yn ystod cyfnod ail-fodelu	1107	Rydym wedi ymgysylltu hefo nifer uchel iawn o bobl ifanc ar y stryd, mewn canolfannau hamdden ayyb ond heb gofnodi y niferoedd hynny. Rydym wedi gweithio mewn prosiectau hefo niferoedd llai a dyma yw'r ffigwr sydd yn ymddangos
Nifer o Achrediadau mae pobl ifanc yn dderbyn trwy'r gwasanaeth	-	-	991	991	Dim yn casglu data yn ystod cyfnod ail-fodelu	311	

## ATODIAD 2 - Mesurau Aelod Cabinet Tai, Hamdden & Diwylliant – Gwasanaeth Tai

Cyf.	Mesur Cyflawni	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	Gwybodaeth diweddaraf
<b>Gwasanaeth Tai</b>						
<b>TAI008</b>	Nifer o unigolion sydd wedi symud i lety cynaliadwy ar diwedd cefnogaeth	-	-	90	41	Ddim ar gael. Data yn cael ei gasglu pob 6 mis.
<b>TAI009</b>	Nifer o unigolion lle mae'r anghenion cefnogaeth sydd yn ymwneud gyda thai wedi ei chyrraedd	-	-	233	65	
<b>TAI015</b>	Nifer o unigolion lle mae'r anghenion iechyd wedi sefydlogi	-	-	4	1	
<b>TAI002</b>	Cyfnod a gymryd i gyflawni yr hyn sy'n bwysig.	85	70	54	103	130
<b>TAI003</b>	Cyfnod a dreuliodd mewn llety dros dro	76	70	104	88	110
<b>PSR/002</b>	Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl.	318	271	311	196	247
<b>TAI014</b>	Nifer o ddiwrnodiau caledar ar gyfartaledd a gymerwyd i roi grant 'Galluogi' i'r Anabl	-	-	-	-	84
<b>TAI012</b>	Nifer y pobl a gynorthwywyd drwy ddileu peryglon o gartrefi wedi eu rhentu	-	-	1659	1453	414
<b>PSR004</b>	Canran o'r anheddau sector breifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1af Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	5.69	5.1	3.7	4.8	0.30
<b>Strat 6'</b>	'Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd	144	48	54	21	14